

Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well

Hydref 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well

Hydref 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau

Cadeirydd y Pwyllgor:



John Griffiths AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru



Huw Irranca-Davies AC
Llafur Cymru



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig



Caroline Jones AC
Plaid Brexit



Leanne Wood AC
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
1. Y cefndir.....	9
2. Y setliad datganoli cyfredol.....	12
2.1. Yr Alban.....	15
2.2. Gogledd Iwerddon.....	18
2.3. Cymru.....	18
3. Yr achos dros ddatganoli budd-daliadau.....	20
4. Yr achos yn erbyn datganoli pellach.....	28
5. Newidiadau o fewn y setliad datganoli cyfredol.....	37
5.1. Datblygu system fudd-daliadau gydlynol yng Nghymru.....	37
5.2. Trefnu bod y Gronfa Cymorth Dewisol ar gael i bobl sy'n profi caledi yn ystod y pum wythnos y maent yn aros am Gredyd Cynhwysol.....	40
5.3. Cynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau presennol.....	43
5.4. Cryfhau llais Cymru ym mhrosesau penderfynu'r DU.....	45
5.5. Newid diwylliant i'r rhai sy'n darparu budd-daliadau yng Nghymru.....	47
5.6. Cynyddu'r trothwy incwm ar gyfer prydau ysgol am ddim a'i gwneud yn system optio i mewn.....	50
5.7. Cydnabod gofal gan berthynas.....	50
6. Pwerau gweinyddol.....	52
6.1. Hyblygrwydd Credyd Cynhwysol.....	52
6.2. Datganoli cymorth ar gyfer costau tai.....	57
6.3. Datganoli'r broses asesu ar gyfer budd-daliadau anabledd a salwch.....	60
6.4. Datganoli penderfyniadau am gosbau.....	62
7. Creu budd-daliadau a phwerau newydd i ychwanegu at fudd-daliadau.....	64
7.1. Creu budd-dal newydd i fynd i'r afael â mater penodol.....	64
7.2. Ychwanegu at fudd-dal presennol.....	65

7. 3. Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai	67
8. Datganoli budd-daliadau penodol	69
Atodiad A: Tystiolaeth ysgrifenedig	71
Atodiad B: Tystiolaeth lafar	72
Atodiad C: Ymweliad â'r Alban	73

Rhagair y Cadeirydd

Mae gweithio i leihau tlodi yng Nghymru wedi bod yn ffocws allweddol i'n Pwyllgor cyn ac yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Bydd gwlad sy'n fwy cyfartal yn gwella ansawdd bywyd pawb. Ond mae capasiti Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r agenda hanfodol hon yn gyfyngedig. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y system fudd-daliadau ac mae'n hanfodol er cyfiawnder cymdeithasol. Felly, mae'n bwysig ystyried a ddylai rhyw fath o ddatganoli ddigwydd i ategu'r pwerau cyfredol a chryfhau ein gallu i drechu tlodi yng Nghymru.

Mae ein gwaith dros y tair blynedd diwethaf wedi canfod problemau gyda'r system nawdd cymdeithasol a diwygiadau Llywodraeth y DU dro ar ôl tro yn cyfrannu at broblemau mawr mewn meysydd polisi datganoledig, o dai i iechyd meddwl, a llywodraeth leol i dlodi.

Mae bron i hanner poblogaeth Cymru yn derbyn rhyw fath o fudd-dal. Mae'r system yn chwarae rhan hanfodol yn economi Cymru, ar gyfer cartrefi unigol, yn ogystal â phwrs ehangach Cymru.

Rydym yn pryderu bod newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol wedi'u cyflwyno heb ystyried anghenion Cymru yn llawn, nac ystyried yr effaith ar feysydd polisi datganoledig.

Roeddem am archwilio archwaeth a dymunoldeb datganoli adrannau o'r system fudd-daliadau, y system gyfan neu ran ohoni. Roedd ein cylch gorchwyl yn ddigon eang i ystyried yr holl opsiynau posibl, heb ddiystyru dim. Roeddem am glywed pob syniad ac awgrym o gynifer o safbwyntiau â phosibl.

Ar hyn o bryd nid yw'r system bresennol yn gweithio i lawer gormod o bobl. Rydym yn clywed dro ar ôl tro nad yw budd-daliadau'n ddigonol i dalu costau cartref sylfaenol a hanfodol, ac nid yw'r system yn trin pobl ag urddas, tegwch na thosturi. Mae cost ddynol y methiannau hyn yn annerbyniol, yn un o economïau cenedlaethol mwyaf y byd.

Mae ein hargymhellion yn cwmpasu'r hyn y gellir ei wneud nawr, o fewn y setliad presennol, ac yn y tymor hwy. Credwn eu bod yn nodi fframwaith clir ar gyfer newid cadarnhaol, a fydd yn lleihau tlodi ac anghydraddoldeb ar lefel unigolyn a chartref, yn gwella llesiant a'r economi ar lefel gymunedol a chenedlaethol.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu "system fudd-daliadau Gymreig" gydlynol ac integredig ar gyfer yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu set o egwyddorion sy'n sail i'w dyluniad a'r dull o'u cyflwyno. Dylai'r egwyddorion hyn gael eu cydgyhyrchu gyda phobl sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru.....Tudalen 40

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt a'r rhai a ddarperir ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys manylion costau, nifer y bobl sy'n gymwys a'r nifer sy'n eu hawlio.Tudalen 40

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gellir defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod y cyfnod pan fo pobl yn aros am daliad Credyd Cynhwysol cychwynnol, a bod y meini prawf cymhwysedd a'r broses ymgeisio yn cael eu newid i adlewyrchu hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ymgeisio yn gyflym er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu derbyn yn amserol i osgoi caledi ariannol a bod digon o arian ar gael i fodloni pob hawliad..... Tudalen 43

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wella'r nifer sy'n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, yn rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus eang helaeth o leiaf. Credwn hefyd y dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor ynghylch budd-daliadau sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon.Tudalen 45

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar y cyd â Llywodraeth y DU i archwilio'r mecanweithiau gorau i wella llais Cymru ym mhenderfyniadau Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisi nawdd cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y trafodaethau hyn ar ein cyfer ymhen chwe mis..... Tudalen 47

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull Pecyn Cymorth Bywoliaethau Cynaliadwy wrth ddarparu'r holl fudd-daliadau datganoledig a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd.....Tudalen 49

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o gynyddu'r trothwy ar gyfer prydau ysgol am ddim i £14,000. Dylid ei chynnal mewn modd amserol fel bod y trothwy diwygiedig ar waith ar gyfer dechrau tymor ysgol 2020/21 os yw'r cynnydd yn ddichonadwy yn ariannol..... Tudalen 50

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod y diffiniad o ofal gan berthynas yn cael ei ehangu i gynnwys aelodau'r teulu ac eraill sydd â chysylltiad agos â'r teulu ond sy'n bobl wahanol i'r rhieni ac sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc mewn rhinwedd anffurfiol, llawn-amser. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Tudalen 51

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio am drefniadau hyblyg ar gyfer talu Credyd Cynhwysol fel y gall pobl yng Nghymru ddewis: cael taliadau mwy mynych, taliadau uniongyrchol i'r landlord, a rhannu taliadau rhwng cyplau. Credwn y dylid bwrw ymlaen â hyn ar frys, a byddem yn gofyn am ddiweddariad o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad ar y trafodaethau a'r broses o roi hyblygrwydd talu ar waith..... Tudalen 57

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli Budd-dal Tai ar gyfer grwpiau penodol o bobl sy'n cael ei ddarparu (ac a fydd yn dal i gael ei ddarparu) y tu allan i Gredyd Cynhwysol..... Tudalen 60

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith archwilio manwl pellach i ddeall yn well beth yw costau, risgiau, agweddau gweithredu ymarferol a manteision datganoli elfen tai y Credyd Cynhwysol. Dylai hyn hefyd gwmpasu pwerau i osod lefelau rhent cymwys. Dylai'r dadansoddiad gael ei gyhoeddi i helpu i fod yn sail i ddadl gyhoeddus a gwleidyddol yn y dyfodol ynghylch datganoli. Tudalen 60

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli'r broses asesu ar gyfer budd-daliadau salwch ac anabledd. Tudalen 62

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i ddatganoli'r rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu cosbau o fewn y system fudd-daliadau..... Tudalen 63

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i greu budd-daliadau newydd..... Tudalen 65

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i ychwanegu at fudd-daliadau a gadwyd yn ôl. Dylai hyn gynnwys yn benodol y pŵer i ychwanegu at renti cymwys..... Tudalen 67

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i'r cynllun taliadau disgresiwn at gostau tai gael ei ddatganoli'n llawn.....Tudalen 68

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith archwilio i ystyried ymarferoldeb datganoli:

- Taliadau Tanwydd Gaeaf a thywydd oer;
- Lwfans Gweini;
- Taliadau ar gyfer costau mamolaeth; a hefyd
- Taliadau ar gyfer costau angladd. Tudalen 70

1. Y cefndir

1. Mae budd-daliadau lles yn hanfodol bwysig i fywydau pobl yng Nghymru, ac economi Cymru. Mae tua hanner poblogaeth Cymru yn cael rhyw fath o fudd-dal lles, sy'n gyfanswm o dros £10 biliwn y flwyddyn.¹
2. Yn ein hymchwiliad gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o fanteision a risgiau datganoli "pwerau gweinyddol" dros Gredyd Cynhwysol.² Yn yr ymchwiliad i gysgu ar y stryd, aethom ymhellach ac argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio datganoli pwerau gweinyddol dros Gredyd Cynhwysol, yn debyg i bwerau Llywodraeth yr Alban.³
3. Gwrthodwyd y ddau argymhelliad yma. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn cefnogi datganoli budd-daliadau na phwerau gweinyddol bryd hynny:

“Fel mater o egwyddor, dylai bod gan bob un ohonom hawl cyfartal i'n gwladwriaeth les. Dylid cyflawni anghenion dinasyddion yn y DU, lle bynnag y maent yn byw.”⁴
4. Parhawyd i godi'r mater hwn, a gofynnwyd cwestiynau yn Siambr y Cynulliad. Wedi i Brif Weinidog newydd Cymru ymgymryd â'i swydd ym mis Rhagfyr 2018, newidiodd safbwynt Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn gan ein Cadeirydd ym mis Ionawr 2019, dywedodd Prif Weinidog Cymru mai ei farn ef oedd “y dylem ni ystyried datganoli gweinyddiad”.⁵ Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru wedi hynny y byddai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) yn archwilio'r achos dros ddatganoli gweinyddiad agweddau ar y system fudd-daliadau.⁶

¹ Sefydliad Bevan. Making welfare work for Wales: Should benefits for people of working age be devolved? Mehefin 2016

² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Gwneud i'r Economi Weithio i'r Rheini Sydd ag Incwm Isel, Mai 2018, paragraffau 299-303

³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bywyd ar y strydoedd: Atal a Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru, Ebrill 2018, paragraffau 133-136

⁴ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Fywyd ar y strydoedd: Atal a Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru, Mehefin 2018 a Llywodraeth Cymru, Ymateb i Gwneud i'r Economi Weithio i'r Rheini Sydd ag Incwm Isel, Gorffennaf 2018

⁵ Cyfarfod Llawn, 15 Ionawr 2019, Cofnod y Trafodion [189]

⁶ Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 7

5. Gobeithiwn y bydd ein hadroddiad yn helpu i oleuo gwaith Llywodraeth Cymru i archwilio'r mater hwn. Gobeithiwn hefyd y bydd yn helpu i ysgogi trafodaeth ehangach rhwng gwleidyddion, y gymdeithas ddinesig a'r cyhoedd ynglŷn â'r awydd am ddatganoli pellach.

6. Fe bennom ni gylch gorchwyl eang ar gyfer yr ymchwiliad hwn, er mwyn osgoi cyfyngu ar ein ffordd o feddwl. Ein cylch gorchwyl oedd ystyried:

- y dadleuon o blaid ac yn erbyn datganoli budd-daliadau lles;
- y gwersi a ddysgwyd o ddatganoli rhai pwerau nawdd cymdeithasol i'r Alban;
- opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o ddatganoli (h.y. hyblygrwydd credyd cyffredinol, datganoli budd-daliadau penodol, y gallu i greu budd-daliadau newydd ac ati);
- ystyriaethau ymarferol datganoli (e.e. y goblygiadau ariannol, integreiddio systemau datganoledig a systemau nad ydynt wedi'u datganoli, seilwaith cyflenwi ac ati); ac
- yr egwyddorion a allai fod yn sail i ddarparu budd-daliadau yng Nghymru.

7. Ochr yn ochr â thystiolaeth ysgrifenedig a llafar, fe ymwelon ni â'r Alban i ddysgu o'u profiadau hwy. Roedd yr ymweliad hwn yn hanfodol i lunio ein hymchwiliad, ac fe'n helpodd i ddeall goblygiadau ymarferol unrhyw ddatganoli yn well. Hoffem ddiolch i bawb a gyfarfu â ni, ac a helpodd i hwyluso'r ymweliad hwn. Mae manylion llawn y dystiolaeth lafar, cyflwyniadau ysgrifenedig, a'r ymweliad â'r Alban wedi'u cynnwys yn yr atodiadau wrth yr adroddiad hwn.

8. Ar y dechrau un, credwn ei bod yn ddefnyddiol dynodi nifer o opsiynau ar gyfer datganoli a ddiystyrwyd gennym, sef datganoli:

- y system lles yn ei chyfanrwydd;
- Credyd Cynhwysol yn ei gyfanrwydd; a
- phob budd-dal salwch ac anabledd.

9. Diystyrwyd y rhain am ystod o resymau gan gynnwys cymhlethdod datganoli o'r fath, y goblygiadau ariannol, a'r risg sy'n gysylltiedig â newid ar raddfa mor fawr i'r system lles. Er nad ydym yn credu bod yr achos dros ddatganoli wedi cael ei

wneud ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod y gallai'r amgylchiadau newid ac felly y gallai'r achos gael ei wneud yn y dyfodol.

2. Y setliad datganoli cyfredol

Mae'r setliad datganoli presennol yn gymhleth iawn, gyda budd-daliadau'n cael eu gweinyddu ar lefel y DU, ar lefel Cymru ac ar lefel leol. Mae'r setliad yn wahanol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

10. Mae'r system nawdd cymdeithasol yn y DU yn gymhleth, gyda thros 50 o fudd-daliadau a chredydau ar gael i bobl gan dibynnu ar eu hamgylchiadau, a'r rheiny'n cael eu gweinyddu gan ystod o asiantaethau. Caiff y mwyafrif o'r budd-daliadau eu darparu a'u gweinyddu ar lefel y DU / Prydain Fawr, heb fawr o amrywiad, os o gwbl, ar draws y gwledydd datganoledig. Ond mae'r system yn dod yn fwyfwy darniog.

Tabl 1: Y prif fudd-daliadau a weinyddir gan Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU (DWP)

Budd-dal	Diben
Credyd Cynhwysol	Budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd i bobl o oedran gweithio sydd ag incwm isel. Ar hyn o bryd mae'n cael ei gyflwyno ledled y DU, a bydd yn disodli Budd-dal Tai, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Cymhorthdal Incwm, a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)	Budd-dal a delir i bobl gymwys sy'n ddi-waith ac sydd wrthi'n chwilio am waith. Mae Credyd Cynhwysol yn disodli JSA.
Chymhorthdal Incwm	Budd-dal a delir i bobl ag incwm isel. Mae Credyd Cynhwysol yn disodli Cymhorthdal Incwm.
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Budd-dal i bobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio oherwydd eu salwch neu eu hanabledd, ond nad ydynt yn cael Tâl Salwch Statudol.

Taliad Annibyniaeth Personol	Taliad heb brawf modd i gwmpasu anghenion ychwanegol pobl anabl. Mae'r Taliad hwn yn disodli Lwfans Byw i'r Anabl.
Lwfans Gofalwyr	Taliad heb brawf modd ar gyfer pobl sy'n rhoi mwy na 35 awr yr wythnos o ofal i berson ag anabledd sy'n cael rhai budd-daliadau.
Lwfans Gweini	Taliad heb brawf modd ar gyfer pobl 65 oed neu drosodd sydd ag anghenion o ran gofal oherwydd anabledd corfforol neu feddyliol.
Credyd Pensiwn	'Ychwanegiad' i bobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth ag incwm isel i gynyddu eu hincwm i isafswm.
Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol	Budd-dal heb brawf modd i bobl sydd wedi dioddef afiechyd neu anabledd naill ai oherwydd damwain yn y gwaith, neu oherwydd afiechyd a achoswyd gan eu gwaith.
Lwfans Anabledd Difrifol	Taliad a oedd yn darparu arian ychwanegol i gynorthwyo gyda chost anabledd - mae'n cael ei ddiddymu'n raddol, a'i ddisodli gan y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
Benthyciadau Cyllidebu	Benthyciad di-log i bobl ar fudd-daliadau penodol i helpu gyda thalu ystod o gostau fel dodrefn; costau symud tŷ; costau mamolaeth neu gostau angladd ymhlith eraill.
Grantiau Mamolaeth Cychwyn Cadarn	Taliad untro o £500 i helpu gyda chostau cael plentyn.
Taliadau Costau Angladd	Taliad untro i gynorthwyo gyda chostau angladd.
Taliadau Tywydd Oer	Taliad o £25 yr wythnos yn ystod tywydd oer iawn i bobl ar fudd-daliadau penodol.

Taliad Tanwydd Gaeaf	Taliad untro o £200 neu £300, a wneir yn ystod y gaeaf i helpu gyda chostau gwresogi ar gyfer aelwydydd gyda rhywun sy'n cael Pensiwn y Wladwriaeth neu'r Credyd Pensiwn.
-----------------------------	---

Tabl 2: Budd-daliadau a weinyddir gan Gyllid a Thollau EM

Budd-dal	Diben
Credyd Treth Plant	Taliad i helpu gyda chostau magu plentyn i bobl ar incwm isel. Mae'n cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol.
Credyd Treth Gwaith	Arian ychwanegol i bobl mewn gwaith ag incwm isel, ac mae'n rhoi rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau gofal plant. Mae'n cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol.
Budd-dal Plant	Taliad misol i unrhyw un sydd â chyfrifoldebau rhiant am blant o dan 16 oed (neu o dan 20 oed os ydynt yn aros mewn addysg lawn-amser gymeradwy neu hyfforddiant di-dâl). Mae'n llai os yw'r hawlydd neu bartner yr hawlydd yn ennill dros £50,000 y flwyddyn.

Tabl 3: Budd-daliadau a weinyddir yng Nghymru (naill ai gan yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru)

Budd	Diben
Budd-dal Tai	<p>Cymorth gyda chostau rhent ar gyfer pobl ag incwm isel pa un a ydynt mewn gwaith ynteu'n ddi-waith. Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheolau sy'n llywodraethu'r cynllun, ond mae'n cael ei weinyddu a'i ddarparu gan awdurdodau lleol.</p> <p>Mae Budd-daliadau Tai i'r mwyafrif o hawlyddion yn cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol.</p>
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Mae'n rhoi cymorth gyda'r dreth gyngor i bobl ag incwm isel. Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n pennu'r rheolau. Gweinyddir taliadau gan awdurdodau lleol.

Taliad Disgresiwn at Gostau Tai	<p>Mae Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn rhoi cymorth byrdymor i bobl sy'n cael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol ac sy'n cael trafferth gyda chostau tai.</p> <p>Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheolau cyffredinol, ond awdurdodau lleol sy'n eu gweinyddu gyda chyfeiriad sylweddol. Darperir cyllid gan Lywodraeth y DU, ond gall awdurdodau lleol "ychwanegu at" daliadau yn eu hardaloedd hyd at swm penodol.</p>
Y Gronfa Cymorth Dewisol	<p>Grantiau anad-daladwy i bobl ag incwm isel yng Nghymru sydd mewn sefyllfaoedd brys neu y mae arnynt angen help i fyw'n annibynnol. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r rheolau ac yn gweinyddu'r gronfa.</p>

2. 1. Yr Alban

11. Ar ôl refferendwm annibyniaeth yr Alban, sefydlodd Llywodraeth y DU Gomisiwn Smith i gytuno ar bwerau pellach i Senedd yr Alban. Argymhellodd y Comisiwn y dylid datganoli pwerau dros nifer o fudd-daliadau.⁷

12. Yn 2016, pasiodd Tai'r Senedd *Ddeddf yr Alban 2016*, a drosglwyddodd gymhwysedd deddfwriaethol ar rai meysydd nawdd cymdeithasol i Senedd yr Alban. Mae gan Senedd yr Alban bwerau i bennu strwythur a gwerth budd-daliadau datganoledig, a'r pŵer i ddisodli budd-daliadau presennol â rhai newydd.

13. Y budd-daliadau a ddatganolwyd oedd:

- budd-daliadau anabledd (Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gweini, Budd-dal Anabledd Difrifol a budd-daliadau anabledd anafiadau diwydiannol);
- budd-daliadau i ofalwyr (Lwfans Gofalwr);
- taliadau sy'n gysylltiedig â thywydd oer (Taliad Tywydd Oer a Thaliad Tanwydd Gaeaf y Gronfa Gymdeithasol);
- costau angladd (Taliad Costau Angladd y Gronfa Gymdeithasol), a

⁷ Comisiwn Smith, Adroddiad Comisiwn Smith ar ddatganoli pwerau ymhellach i Senedd yr Alban, paragraffau 43-58

- bwydydd lles a thaliadau penodol ar gyfer costau mamolaeth (talebau a fitaminau Cychwyn Iach, Ilaeth Meithrin a Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn y Gronfa Gymdeithasol).

14. Rhoddodd *Deddf yr Alban 2016* bwerau i wneud y canlynol hefyd:

- darparu taliadau a chymorth dewisol;
- darparu budd-daliadau wrth gefn ychwanegol;
- creu budd-daliadau nawdd cymdeithasol newydd eraill (heblaw pensiynau);
- deddfu ar gyfer cynlluniau "bwyd lles" i helpu i wella maeth i fenywod beichiog, mamau a phlant, ac
- amrywio elfen cost tai Credyd Cynhwysol ar gyfer llety ar rent a newid trefniadau talu ar gyfer Credyd Cynhwysol.

15. Mae'r budd-daliadau a ddatganolwyd yn rhoi cyfrif am oddeutu 16% o gyfanswm y gwariant ar les yn yr Alban. Roedd hyn yn gyfwerth ag oddeutu £3 biliwn yn 2017-18.

16. Gwnaed amrywiaeth o waith cyn cyflwyno a phasio *Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018*. Roedd y Ddeddf:

- yn nodi egwyddorion system nawdd cymdeithasol yr Alban;
- yn ei gwneud yn ofynnol creu siarter nawdd cymdeithasol yn yr Alban;
- yn creu'r fframwaith cyfreithiol y bydd y budd-daliadau datganoledig yn gweithredu ynddo; ac
- yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth yr Alban hyrwyddo'r arfer o hawlio nawdd cymdeithasol yr Alban a sicrhau bod eiriolaeth i'r rhai y mae ei hangen arnynt.

17. Ymhlith y newidiadau a gyflwynwyd yn yr Alban hyd yn hyn mae:

- opsiynau hyblygrwydd ar gyfer taliadau Credyd Cynhwysol, a elwir yn "Scottish Choices". Mae'r cynllun yn rhoi'r opsiwn i hawlyddion gael taliadau mwy rheolaidd (bob pythefnos yn lle bob mis); taliadau uniongyrchol i landlordiaid; a thaliadau a rennir rhwng cyplau;

- cyflwyno'r Atodiad Lwfans Gofalwr, sy'n daliad ychwanegol o £221 i ofalwyr, a delir ddwywaith y flwyddyn. Fe'i telir yn awtomatig i bobl sy'n derbyn Lwfans Gofalwr;
- cyflwyno grantiau Best Start, sef tri thaliad a wneir i bobl ag incwm isel, adeg geni plentyn, pan fydd yn dechrau mewn lleoliad meithrin, a phan fydd yn dechrau yn yr ysgol; a
- disodli Taliad Costau Angladd y DU â Chymorth Costau Angladd, ac ehangu'r meini prawf cymhwysedd a chynyddu'r gyfradd yn unol â chwyddiant.

Ymhlith y newidiadau y bwriedir eu cyflwyno dros y pum mlynedd nesaf mae:

- cyflwyno Cymorth Anabledd ar gyfer pobl o oedran gweithio, pobl hŷn, plant a phobl ifanc, a fydd yn disodli'r Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gweini a Lwfans Byw i Blant Anabl;
- cyflwyno Taliad Plant newydd yn yr Alban, a fydd yn darparu taliad o £10 yr wythnos i bob plentyn 0-6 oed ar gyfer teuluoedd ag incwm isel;
- disodli'r Lwfans Gofalwr â Chymorth Gofalwr, a chyflwyno budd-dal newydd, sef Atodiad Lwfans Gofalwr, i bobl sy'n gofalu am fwy nag un person anabl;
- cyflwyno Grant Gofalwr Ifanc newydd, ar gyfer gofalwyr ifanc (16-18 oed) nad ydynt yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr;
- cyflwyno "Cymorth Byrdymor", taliad newydd sydd ar gael i bobl tra'u bod yn apelio yn erbyn gostyngiad i'w budd-daliadau;
- disodli talebau Cychwyn Iach y DU â'r Bwydydd Cychwyn Gorau, a fydd yn darparu talebau bwyd iach i fenywod beichiog a theuluoedd â phlant bach;
- disodli Taliad Tanwydd Gaeaf y Gronfa Gymdeithasol â chymorth gwresogi yn y gaeaf, a disodli Taliad Tywydd Oer y Gronfa Gymdeithasol â Chymorth Gwresogi mewn Cyfnodau o Dywydd Oer;
- disodli Budd-daliadau Anabledd Anafiadau Diwydiannol â Chymorth Anafiadau Cyflogaeth.

18. Mae trosglwyddo pwerau a chyflwyno budd-daliadau newydd yn digwydd yn raddol. Disgwylir cyflawni hyn yn llawn erbyn 2024. Fodd bynnag, mae

Llywodraeth yr Alban wedi dweud na fydd yn gwneud hynny os yw hyn yn creu risgiau annerbyniol i gleientiaid.⁸

2. 2. Gogledd Iwerddon

19. Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr. Mae pwerau ar gyfer nawdd cymdeithasol wedi'u datganoli'n llawn er 1920. Ond oherwydd yr "egwyddor cydraddoldeb"⁹ a goblygiadau ariannol peidio â sicrhau cydraddoldeb, mae Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi pasio deddfwriaeth nawdd cymdeithasol a oedd yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth yng ngweddill Prydain Fawr.

20. Yn dilyn newidiadau i'r system lles a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2012, trafodwyd rhai amrywiadau. Dyrannodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon £501 miliwn rhwng 2016 a 2020 i roi amser i bobl addasu i'r diwygiadau. Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys y canlynol:

- lliniaru effaith meini prawf maint cymdeithasol Budd-dal Tai (y "dreth ystafell wely" fel y'i gelwir);
- taliadau atodol i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y newidiadau;
- lleihau'r cyfnod cosbi uchaf; a
- mwy o hyblygrwydd ar gyfer taliadau Credyd Cynhwysol (yn debyg i Scottish Choices ar gyfer Credyd Cynhwysol).

2. 3. Cymru

21. Yn 2011, sefydlodd Llywodraeth y DU Gomisiwn Silk i adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru. Ar ôl rhoi ystyriaeth eang i'r materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol fe benderfynon nhw beidio ag argymell datganoli. Roedd y Comisiwn yn cytuno â'r dystiolaeth a gawsant "na ellid cyfiawnhau" y risgiau a'r costau ariannol". Fodd bynnag, pe bai datganoli i'r Alban yn y dyfodol, dywedasant y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r goblygiadau ar gyfer Cymru. Fe wnaethant nodi y dylid ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru a

⁸ [Llywodraeth yr Alban, Nawdd Cymdeithasol, Cwestiynau ac Atebion, Amserlen Cyflenwi](#) [fel ar 26 Medi 2019]

⁹ Mae'r "egwyddor cydraddoldeb" (parity principle) yn gweithredu ar y sail bod gan Gogledd Iwerddon yr un ystod o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a delir ar yr un cyfraddau ac yn ddarostyngedig i'r un amodau â'r rhai ym Mhrydain Fawr. Mae'r egwyddor hon wedi'i hymgorffori yn Neddf Gogledd Iwerddon 1998.

rhanddeiliaid i sicrhau bod amgylchiadau Cymru yn cael eu hystyried pan gyflwynir diwygiadau mawr.¹⁰

22. Cafodd rhai budd-daliadau eu datganoli i Gymru fel rhan o ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU o 2012. Datganolwyd Budd-dal y Dreth Gyngor (a elwir bellach yn Ostyngiadau'r Dreth Gyngor) ac elfen ddewisol y Gronfa Gymdeithasol (a elwir bellach yn Gronfa Cymorth Dewisol). Pan ddatganolwyd Budd-dal y Dreth Gyngor, cyflwynodd Llywodraeth y DU ostyngiad o 10% yn y cyllid cysylltiedig gan olygu bod rhaid Lywodraeth Cymru wneud iawn am y diffyg, sy'n costio £22 miliwn y flwyddyn.

23. Mae cymorth arall ar gael yng Nghymru hefyd. Mae peth ohono'n gymorth cyffredinol, fel presgripsiynau am ddim, a pheth ohono'n gymorth wedi'i dargedu, fel lwfans cynhaliaeth addysgol, cludiant rhatach, a phrydau ysgol am ddim. Mae Sefydliad Bevan yn disgrifio'r cymorth hwn fel trefniant sy'n rhan o "rwyd ddiogelwch ar gyfer Cymru".¹¹

¹⁰ Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru*, paragraffau 11.3.7 – 11.3.11, Mawrth 2014

¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [212]

3. Yr achos dros ddatganoli budd-daliadau

Gallai rhyw fath o ddatganoli arwain at system fwy tosturiol, gwell aliniad â pholisïau datganoledig, mwy o gyfleoedd i ddinasyddion Iunio gwasanaethau, ac o bosibl arwain at fwy o atebolrwydd cyllidol.

24. Clywsom lawer o ddadleuon ar ddwy ochr y ddadl ynglŷn â datganoli. Ymddengys mai'r prif densiynau rhwng y dadleuon cystadleuol hyn yw cydbwysu'r posibilrwydd o dorri'r undeb cymdeithasol â gwobr bosibl darparu gwasanaethau sy'n gweddu'n well i anghenion penodol Cymru.

25. Nodwn hefyd nad yw datganoli yn gwella pethau'n awtomatig, pwynt a godwyd gan y mwyafrif o randdeiliaid gan gynnwys Oxfam Cymru,¹² Sefydliad Bevan,¹³ academyddion o Brifysgol Bangor¹⁴ a'r Dirprwy Weinidog.¹⁵

Y gallu i greu system decach a mwy tosturiol

26. Dywedwyd wrthym nad yw agweddau ar y system gyfredol bob amser yn cael eu hystyried yn deg neu'n drugarog. Awgrymodd nifer fawr o randdeiliaid y gallai datganoli roi cyfle i greu system fwy tosturiol.

27. Dywedodd Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru (WRAC) wrthym fod y newidiadau i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Taliad Annibyniaeth Personol yn benodol wedi lleihau cymorth i'r rhai mewn angen a'r bobl hynny, yn aml, yw'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae'r prosesau gweinyddol ac asesu bellach yn cael eu hystyried yn amlwg yn annheg, yn ddiffygiol ac yn anghyfiawn¹⁶ Cadarnhaodd WRAC mai'r budd-daliadau mwy dewisol a allai elwa o ddull mwy tosturiol.¹⁷

¹² [BW.05 Oxfam Cymru](#)

¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [204]

¹⁴ [BW.14 Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym \(Prifysgol Bangor\), paragraff 1.c](#)

¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [58]

¹⁶ [BW.12 Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru, paragraff 10](#)

¹⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [58]

28. Dywedodd Mind Cymru fod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn ystyried nad ydynt yn cael eu trin ag urddas, tosturi a pharch gan y system.¹⁸ Roedd Sefydliad Bevan yn cytuno, gan ddweud bod hawlyddion yn nodi eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod gan rai teuluoedd gyn lleied â £2 y mis yn weddill ar ôl costau tai hanfodol.¹⁹

29. Nododd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor fod y broses gyfredol o ran Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Terfynol yn arbennig o annheg:

“This standard process is extremely burdensome and time-consuming for a person dealing with the devastating emotional and physical impact of a diagnosis of a terminal condition such as motor neurone disease (MND).”²⁰

30. Fe wnaethant ychwanegu ei bod yn wir o ganlyniad nad yw llawer o bobl sydd â chyflyrau terfynol anrhagweladwy yn defnyddio'r broses Rheolau Arbennig ar gyfer Salwch Terfynol (SRTI) gan ei bod yn hollol amhriodol iddynt.²¹ Nodwn, ers cyflwyno'r dystiolaeth hon, fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adolygiad o'r rheolau hyn.²²

31. Clywsom gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys Oxfam Cymru²³; Ymddiriedolaeth Shaw²⁴; Ymddiriedolaeth Trussell²⁵; a'r Sefydliad Tai Siartredig Cymru²⁶ (CIH Cymru) y dylai unrhyw newidiadau i'r system fod â'u gwreiddiau mewn egwyddorion, fel tosturi, urddas a dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

32. Gan adeiladu ar hyn, credai rhai rhanddeiliaid y gallai datganoli fod yn gyfle i herio rhai agweddau tuag at hawlyddion a'r system fudd-daliadau. Dywedodd Cyngor Abertawe y gallai datganoli roi cyfle i:

“... allu dylunio system nawdd cymdeithasol ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person, a chael gwared ar y stigma a'r rhagfarn y

¹⁸ [BW13 Mind Cymru, paragraff 2](#)

¹⁹ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

²⁰ [BW 01 Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, paragraff IV](#)

²¹ [BW 01 Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, paragraff VII](#)

²² [Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Datganiad i'r wasg, 11 Gorffennaf 2019](#)

²³ [BW05 Oxfam](#)

²⁴ [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 2.1](#)

²⁵ [BW15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 16](#)

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [102]

mae'r rheiny sy'n hawlio budd-daliadau yn eu hwynebu drwy newid canfyddiadau bod yr hawl i nawdd cymdeithasol yn hawl ddynol.”²⁷

33. Nid dim ond Ymddiriedolaeth Trussell a dynnodd sylw at y ffordd y mae system dosturiol ac urddasol wedi cael ei rhoi ar waith yn ymarferol yn yr Alban trwy Siarter Nawdd Cymdeithasol yr Alban.²⁸ Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod dull yr Alban yn helpu i droi cefn ar ymdeimlad o “gywilydd a baich” lle mae'r system yn y cwestiwn.²⁹

34. Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom, a dywedodd y gallai datganoli “alluogi dull gwahanol” a oedd yn seiliedig ar “dosturi a thegwch”:

“Dylai'r system les drin pobl ag urddas a pharch gan hyrwyddo symlrwydd a phroses weinyddu effeithlon ar yr un pryd.”³⁰

35. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Dirprwy Weinidog) ei bod bellach yn amserol ystyried sut y gellir efallai fynd i'r afael â hyn mewn dull llawer mwy tosturiol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.³¹ Ychwanegodd y byddai angen i unrhyw newidiadau fod yn seiliedig ar egwyddorion tosturi a thegwch.³²

Cynnwys pobl sydd â phrofiad byw yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso budd-daliadau

36. Un o'r dadleuon cryfaf a glywsom oedd y cyfle y gallai datganoli ei ddarparu i gynnwys pobl â phrofiad byw yn well yn y broses o ddylunio, darparu, gwerthuso a rheoli budd-daliadau.

37. Mae llawer y gellir ei ddysgu o'r gwaith rhagorol yn yr Alban. Clywsom am nifer o enghreifftiau lle'r oedd profiad byw yn bwydo'n uniongyrchol i newidiadau o ran y ffordd y mae'r system yn cael ei gweinyddu, a'r budd-daliadau eu hunain.

²⁷ [BW08 Cyngor Abertawe, paragraff 1.1.4](#)

²⁸ [BW15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 7](#)

²⁹ [BW16 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, paragraff 5](#)

³⁰ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 11](#)

³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [4]

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [9]

- 38.** Dywedwyd fod datganoli wedi ei gwneud yn bosibl cyflawni gwell aliniad rhwng y cymorth gydag incwm, a chymorth personol ehangach, megis cyngor ar reoli cyllidebau neu gymorth i gynnal tenantiaethau a gynigir gan y system.
- 39.** Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth yr Alban yn anelu at feithrin ymddiriedaeth a ffydd pobl yn y system trwy ymgorffori cyd-ddylunio fel rhan o'r broses o ddylunio, gweithredu a gwerthuso'r budd-daliadau newydd. Mae tua 2,500 o bobl sydd â phrofiad byw wedi cymryd rhan trwy "baneli profiad". Mae gan y rhain ffocws penodol ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- 40.** Fe wnaeth Sefydliad Bevan a Chwarae Teg³³ ill dau amlygu pwysigrwydd ansawdd y gwasanaeth a'r cymorth y mae pobl yn eu cael gan y system. Dywedodd Sefydliad Bevan fod cyfoeth o waith ymchwil sy'n nodi bod profiadau pobl o ryngweithio â'r system budd-daliadau lles o ddydd i ddydd yn bwysig iawn iddyn nhw.³⁴
- 41.** Dywedodd CIH Cymru wrthym fod angen i newidiadau gael eu goleuo gan brofiadau hawlyddion.³⁵ Roedd Ymddiriedolaeth Shaw yn cytuno, a galwodd am gyd-gynhyrchu.³⁶
- 42.** Clywsom nifer o ddadleuon ynglŷn â photensial datganoli i gynnwys pobl â phrofiadau byw yn well. Clywsom fod y system yn aml wedi'i dylunio o amgylch rhagdybiaethau anghywir am fywydau pobl.³⁷ Clywsom hefyd fod pobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn aml yn arddel barn glir iawn ynglŷn â newidiadau angenrheidiol ynghyd ag atebion creadigol ac arloesol.³⁸
- 43.** Gwnaeth Sefydliad Bevan hi'n glir bod angen ymgysylltu â dinasyddion ar bob cam o'r broses o ddylunio, darparu a gwerthuso:

"I think the Scottish Government's arrangements are potentially very valuable at that very high level, but what they don't tell you is that the Jobcentre Plus office or the local assessment centre isn't wheelchair accessible or has certain barriers to people."³⁹

³³ [BW19 Chwarae Teg, paragraff 2.5](#)

³⁴ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

³⁵ [BW06 Y Sefydliad Tai Siartredig, paragraff 5.4](#)

³⁶ [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 2.2](#)

³⁷ [BW13 Mind Cymru, paragraff 5](#)

³⁸ [BW11 Comisiynydd Plant Cymru](#)

³⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [241]

44. Rhannwyd y farn hon gan Ymddiriedolaeth Trussell⁴⁰, tra bo Chwarae Teg wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau, ac amrywiaeth o ran llais a phrofiad.⁴¹

Gwella aliniad â pholisïau datganoledig gan roi ystyriaeth well i anghenion penodol yng Nghymru hefyd

45. Dadleuodd Ymddiriedolaeth Shaw y gallai datganoli budd-daliadau arwain at well aliniad â pholisïau datganoledig fel iechyd a gofal cymdeithasol, tai, cyflogaeth a gwasanaethau lleol eraill. Dywedon nhw y byddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru oherwydd y byddai hynny'n haws i'w gyflawni nag ar draws y DU gyfan.⁴²

46. Roedd rhanddeiliaid gan gynnwys Sefydliad Bevan,⁴³ Chwarae Teg,⁴⁴ a Chanolfan Llywodraethiant Cymru⁴⁵ yn cytuno. Awgrymodd Sefydliad Bevan y gallai alinio budd-daliadau â pholisi datganoledig fel tai fod ar sawl ffurf; er enghraifft, yn hytrach na darparu cymhorthdal rhent, gellid rhoi help gyda chostau tai mewn ffordd wahanol sy'n adlewyrchu nodau Llywodraeth Cymru yn well.⁴⁶

47. Dywedon nhw hefyd y bydd cael cyfatebiaeth dda ar gyfer pwerau newydd a phresennol yn golygu bod y dinesydd yn cael y gwasanaeth di-dor gorau posibl.⁴⁷

48. Tynnodd rhai rhanddeiliaid gan gynnwys Sefydliad Bevan ac Ymddiriedolaeth Trussell sylw at yr effaith bosibl ar leihau tloidi. Pwysleisiodd Ymddiriedolaeth Trussell y materion a'r heriau unigryw yng Nghymru megis lefelau tloidi plant, ac fe ofynnwn nhw'r cwestiwn "where does the decision making best sit in relation to those specific Welsh issues....?"⁴⁸

⁴⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [72]

⁴¹ [BW.19.Chwarae.Teg.paragraff.2.5](#)

⁴² [BW.06.Ymddiriedolaeth.Shaw.paragraff.2.1](#)

⁴³ [BW.17.Sefydliad.Bevan](#)

⁴⁴ [BW.19.Chwarae.Teg](#)

⁴⁵ [BW.07a.Canolfan.Llywodraethiant.Cymru.Pennod.5](#)

⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [140]

⁴⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [204]

⁴⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [28]

49. Dywedodd Sefydliad Bevan mai'r prif gwestiwn y dylid mynd i'r afael ag ef yw "What support do people on low incomes and/or in crisis need in Wales?" yn hytrach na gofyn a ddylid datganoli budd-daliadau.⁴⁹ Mae hon yn ongl bwysig i'w hystyried, yn enwedig wrth i ni barhau i fod â phryderon ynghylch cyflymder ac effaith gwaith Llywodraeth Cymru ar leihau tlodi.

50. Fe wnaeth Cartrefi Cymunedol Cymru nodi effaith hyn mewn termau ymarferol, gan amlygu nad yw Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw fudd o ostyngiadau yn y bil budd-dal tai, a allai fod yn gysylltiedig â'u penderfyniadau polisi.⁵⁰

51. Roedd CIH Cymru hefyd yn gefnogol i ymchwilio ymhellach i ran-ddatganoli elfen costau tai Credyd Cynhwysol a'r cap ar fudd-daliadau o bosibl oherwydd bod tai yn fater datganoledig a'i bod yn anorfod yn eu tyb hwy bod costau tai yn cael effaith ar farchnadoedd yng Nghymru.⁵¹

52. Yn ogystal ag arwain at well aliniad â pholisïau datganoledig, dywedodd rhanddeiliaid y byddai datganoli yn gyfle i deilwra budd-daliadau yn well i anghenion Cymru. Nododd Ymddiriedolaeth Shaw anawsterau penodol i bobl anabl a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.⁵²

53. Roedd Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru yn cytuno bod llawer o gysylltiadau rhwng budd-daliadau a gwasanaethau datganoledig. Dywedodd fod y cwestiwn yn ymwneud ag i ba raddau y mae angen integreiddio gwasanaethau yn well ar draws y llinell rhwng materion sydd wedi ac sydd heb eu datganoli ac y dylid darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n diwallu anghenion yr unigolyn orau. Ychwanegodd fod gwaith eisoes yn cael ei wneud ar draws ffiniau datganoli, ond nododd mai cwestiwn ynglŷn â pha un a allwn ni wneud hynny'n well mewn meysydd eraill ydyw.⁵³

54. Meddai'r Dirprwy Weinidog wrthym:

“...this is not about a sticking plaster, it's about actually looking at how we can apply those principles in Wales, and actually how we can not

⁴⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [148]

⁵⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [88]

⁵¹ [BW 04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraffau 4.1 a 4.2](#)

⁵² [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 5.5](#)

⁵³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [61]

just fix what we perceive are the problems in the system now, but actually make them more sustainable for the future....taking a decision that makes sure that anything that we do go forward with actually works for us in Wales, in the long term.”⁵⁴

Gwell atebolrwydd cyllidol a chyfle i wneud arbedion ariannol

55. Archwiliodd Canolfan Llywodraethiant Cymru y goblygiadau ariannol i Gymru a fyddai'n deillio o ddatganoli'r un pecyn o fudd-daliadau sydd wedi'i ddatganoli i'r Alban. Ni chanfu unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai datganoli'r pwerau hyn yn anghynaliadwy yn ariannol. A dweud y gwir, dywedodd, gan ddibynnu ar y mecanwaith Barnett a ddefnyddir, a natur y cytundebau rhynglywodraethol, y gallai Trysorlys Cymru fod ar ei hennill yn sylweddol o ganlyniad i ddatganoli pwerau lles.⁵⁵

56. Fodd bynnag, pe bai'r pecyn budd-daliadau hwn yn cael ei ddatganoli, dywedodd y byddai gan newidiadau i faint llwyth achosion Cymru mewn perthynas â Lloegr rôl hanfodol o ran penderfynu a yw Trysorlys Cymru ar ei hennill ynteu ar ei cholled yn ariannol o ganlyniad i'r setliad datganoli.⁵⁶

57. Roeddent yn dadlau, gan y byddai effaith net datganoli yn amrywio gan ddibynnu ar y budd-dal unigol, bod hyn yn cryfhau'r achos o blaid datganoli pecyn o fudd-daliadau yn hytrach nag un budd-dal unigol.⁵⁷

58. Amlygodd Ymddiriedolaeth Trussell y byddai angen cyllid digonol gan Lywodraeth y DU ar gyfer unrhyw ddatganoli, ond y byddai buddsoddi yn y system fudd-daliadau mewn ffordd gadarn a sensitif yn cael effeithiau cadarnhaol ar wasanaethau eraill gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, a'r system cyfiawnder troseddol.⁵⁸

59. Un o'r materion a archwiliwyd gennym oedd effaith bosibl unrhyw ddiffyg yng nghyllid Llywodraeth y DU i dalu am weinyddu unrhyw fudd-daliadau datganoledig. Yn ôl yr hyn a ddywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru wrthym, er y gallai Llywodraeth y DU dalu am rai o'r costau gweithredu a gweinyddu yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu

⁵⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [55]

⁵⁵ [BW.7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, pennod 5](#)

⁵⁶ [BW.7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, pennod 3](#)

⁵⁷ [BW.7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, paragraff 4.5](#)

⁵⁸ [BW15.Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 13](#)

am unrhyw ddiffygion.⁵⁹ Yn yr Alban nid yw'r cyllid gan Lywodraeth y DU wedi bod yn ddigon i dalu'r holl gostau gweinyddol.

60. Nodwn fod rhaid talu am unrhyw gynnydd yng nghost budd-daliadau yn yr Alban o gyllideb yr Alban. Er bod rheoli'r lefel hon o wariant seiliedig-ar-alw yn gryn her, clywsom farn bod y manteision yn gorbwyso heriau a chymhlethdodau ariannol ychwanegol.⁶⁰

61. Dywedodd Sefydliad Bevan y gallai datganoli arwain at fwy o atebolrwydd cyllidol. Nodwn fod y ddadl hon yn un o'r rhai a wnaed o blaid datganoli treth. Hefyd, os yw Llywodraeth Cymru yn lleihau gwariant ar fudd-dal penodol trwy ei pholisïau, yna dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru elwa.⁶¹

Mae risgiau peidio â newid y system yn gorbwyso risgiau datganoli

62. Dadleuodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Chwarae Teg⁶² ac Ymddiriedolaeth Trussell, fod mwy o risg o gynnal y sefyllfa fel ag y mae hi ar hyn o bryd, o'i gymharu ag unrhyw risgiau sy'n gynhenid mewn datganoli. Dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell nad oeddent yn rhagweld y byddai'r sefyllfa'n gwella ar unrhyw adeg yn y dyfodol agos, a hwythau'n gofyn "where are those changes going to be best made?".⁶³

63. Derbyniwyd y pwynt hwn i raddau gan y Dirprwy Weinidog, a esboniodd y byddai angen ystyried y cost gymdeithasol unrhyw newid yn ogystal ag ystyried y goblygiadau cyllidol.⁶⁴

⁵⁹ [BW 7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, paragraff 4.4](#)

⁶⁰ [Trafodaethau anffurfiol yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban](#)

⁶¹ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

⁶² [BW 19 Chwarae Teg, paragraff 1.6](#)

⁶³ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2016, Cofnod y Trafodion \[68\]](#)

⁶⁴ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2016, Cofnod y Trafodion \[21\]](#)

4. Yr achos yn erbyn datganoli pellach

Cyflëwyd nifer o ddadleuon yn erbyn datganoli pellach, gan gynnwys y difrod posibl i'r undeb cymdeithasol, y risg ariannol, a phryderon ynghylch creu system fwy cymhleth byth.

“Yr undeb cymdeithasol”

64. Yr undeb cymdeithasol yw'r egwyddor bod gan holl ddinasyddion y DU hawl gyfartal i'r wladwriaeth les, a bod budd-daliadau a beichiau'n dibynnu ar angen ac nid daearyddiaeth.

65. Credai CIH Cymru fod y model cyfredol sy'n gwasgaru gwariant nawdd cymdeithasol dros sylfaen ddemograffig fwy yn un sydd ar hyn o bryd yn fanteisiol i Gymru.⁶⁵ Yn sgîl lefel uwch o ddibyniaeth ar fudd-daliadau yng Nghymru, dywedodd fod peth incwm i bob pwrpas yn cael ei drosglwyddo o Loegr i Gymru.⁶⁶

66. Dywedodd Sefydliad Bevan fod rhaid ystyried yr effaith bosibl ar yr undeb cymdeithasol. Awgrymodd nad oedd datganoli addysg a'r gwasanaeth iechyd wedi erydu hawl gyffredin.⁶⁷

67. Mae'r Sefydliad yn nodi bod datganoli rhai budd-daliadau yn yr Alban wedi gwanhau'r ddadl hon ymhellach, yn ogystal â'r ffaith bod elfennau o'r system les wedi'u datganoli yng Nghymru gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.⁶⁸ Fe wnaethant amlygu bod angen gwahaniaethu rhwng:

“...those benefits which are arguably part of the ‘social contract’ e.g. benefits which are based on National Insurance contributions and those which are variable top-up payments designed to support people in specific circumstances, e.g to manage high housing costs.”⁶⁹

⁶⁵ [BW 04 Sefydliad Siartredig Tai Cymru, paragraff 4.4](#)

⁶⁶ [BW 04 Sefydliad Siartredig Tai Cymru, paragraff 4.6](#)

⁶⁷ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

⁶⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [175]

⁶⁹ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

68. Yn y pen draw serch hynny, meddai Sefydliad Bevan, nid yw'r ddadl y byddai datganoli yn gwanhau'r undeb cymdeithasol yn dal dŵr.⁷⁰

69. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu ar y ddadl hon o'r blaen fel un o'r prif resymau dros beidio â cheisio datganoli. Mae wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd yr undeb cymdeithasol yn ystod ein hymchwiliad:

“Mae'r wladwriaeth les yn elfen hanfodol o Deyrnas Unedig: un sydd â chyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi'r rheini sydd mewn angen drwy gyfuno adnoddau ac ailddosbarthu incwm. Ni ddylid tanseilio'r cyfrifoldeb ar y cyd hwn drwy ddatganoli.”⁷¹

70. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gysyniad yr undeb cymdeithasol ond ei bod bellach yn amserol ystyried sut y gallai datganoli efallai fynd i'r afael â hyn mewn dull llawer mwy tosturiol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.⁷²

71. Pan ofynasom i'r Dirprwy Weinidog am enghreifftiau o fudd-daliadau penodol sy'n darparu'r “glud sy'n ein clymu gyda'n gilydd”⁷³ roedd hi'n amharod i nodi hyn nes bod y dystiolaeth lawn ar gael.⁷⁴

72. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru nad oedd ar Lywodraeth Cymru eisiau achub y blaen ar waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ond bod y budd-daliadau hynny a oedd fwyaf anrhagweladwy, lle gall y galw amrywio, megis budd-dal diweithdra, yn achosi risg gyllidol benodol.⁷⁵

73. Fe wnaethom barhau i geisio eglurder gan y Dirprwy Weinidog ar y budd-daliadau hynny y byddai eu datganoli'n gwanhau'r undeb cymdeithasol yn ei thyb hi. Meddai:

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [175]

⁷¹ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 8](#)

⁷² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [4]

⁷³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2016, Cofnod y Trafodion [28]

⁷⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2016, Cofnod y Trafodion [30]

⁷⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2016, Cofnod y Trafodion [34-39]

“Our focus on administration may influence the arguments relating to a social union. In general the concept of a social union is often used to describe the pooling and sharing of resources according to need.”⁷⁶

74. Ychwanegodd nad dim ond o safbwynt yr undeb cymdeithasol y dylid ystyried datganoli budd-daliadau; a bod y budd-daliadau hynny sy'n “gylchol” yn fwy o risg na'r rhai sy'n “fwy rhagweladwy” o ran eu natur.⁷⁷

Risg gyllidol

75. Un o'r prif ddadleuon yn erbyn datganoli oedd y costau posibl a'r risgiau cyllidol cysylltiedig. Disgrifiodd pwysau Teg y risg fel un o'r heriau mwyaf sylweddol, ond ychwanegodd y dylai unrhyw ystyriaeth i'r gost hefyd gydbwysu manteision mwy o hyblygrwydd a system sy'n cyd-fynd yn well â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.⁷⁸ Roedd Ymddiriedolaeth Trussell yn cefnogi hyn, ond roeddent yn pryderu am y risg y gallai datganoli ddigwydd heb ddigon o gyllid.⁷⁹

76. Amlygodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CIH Cymru, fod angen ystyried natur y sylfaen dreth yng Nghymru. Yn benodo ei bod:

- yn fwy dibynnol ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ac incwm pensiwn na rhannau eraill o'r DU,
- yn fwy dibynnol ar y diwydiant gweithgynhyrchu;
- â lefelau uwch o anweithgarwch economaidd; ac
- â llai o drethdalwyr cyfradd uwch.⁸⁰

77. Hefyd, roedd gan CIH bryderon ynghylch y pwysau y byddai datganoli yn eu rhoi ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, gan nodi tuedd barhaus o ran cynnydd yng ngwariant y GIG. Maent hwy'n credu y gallai datganoli budd-daliadau'n llawn achosi sgîl-ffaith ar feysydd blaenoriaeth eraill, megis tai, trafnidiaeth a seilwaith

⁷⁶ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 6 Awst 2019

⁷⁷ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 6 Awst 2019

⁷⁸ BW.19 Chwarae Teg, paragraff 4.1

⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [8]

⁸⁰ BW.04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraffau 4.3-4.6

cymunedol.⁸¹ Mynegwyd y pryderon hyn gan Oxfam Cymru⁸² a Chyngor Abertawe⁸³ hefyd.

78. Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn pryderu y gallai newidiadau demograffig fel poblogaeth hŷn a mwy anabl roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.⁸⁴

79. Roedd Llywodraeth Cymru yn poeni am y risg gyllidol uwch bosibl a nododd ei phrofiad o ddatganoli Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor. Cafodd y cyllid ei "frigdorri gan Lywodraeth y DU" gan greu diffyg o £22 miliwn. Er iddi orfod ysgwyddo'r gost ariannol hon, credai Llywodraeth Cymru fod y cynllun bellach yn fwy effeithlon ac yn decach na chynllun Lloegr.⁸⁵

80. Fe wnaethant bwysleisio'r angen i arfer pwyll wrth ymateb i dystiolaeth Canolfan Llywodraethiant Cymru y gallai datganoli olygu bod Trysorlys Cymru ar ei hennill o ran y swm net. Yn gyntaf, nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio'r un pecyn. Yn ail, mae'n nodi na ellir cymryd yn ganiataol y câi'r un trefniadau cyllidol eu rhoi ar waith, gan dynnu sylw at y ffaith bod "cytundebau'r fframwaith gyllidol [ar gyfer trethiant] ... yn dra wahanol i'w gilydd, gan adlewyrchu'r amgylchiadau gwahanol yn y ddwy wlad".⁸⁶

81. Roeddent hefyd yn credu, pe bai unrhyw ddatganoli, y byddai'n digwydd mewn ffordd na ddisgwylir iddi "roi mantais ariannol i Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU".⁸⁷

82. Er mwyn rheoli a lliniaru'r risg gyllidol yn y ffordd orau, dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru y byddai angen pwerau benthyca newydd ar Lywodraeth Cymru yn ogystal ag offer priodol i arfer rheolaeth ariannol.⁸⁸

83. Fe wnaethant ddweud wrthym nad oedd eu dadansoddiad hwy o gostau datganoli yn ystyried gweinyddu, ac efallai mai'r rhain fyddai'r costau mwyaf a'u

⁸¹ [BW 04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraff 4.7](#)

⁸² [BW05 Oxfam](#)

⁸³ [BW 08 Cyngor Abertawe, paragraffau 1.2.4-1.2.5](#)

⁸⁴ [BW 10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraffau 32-33](#)

⁸⁵ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 12](#)

⁸⁶ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 13](#)

⁸⁷ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 13](#)

⁸⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [82] a [112]

bod yn un o'r pethau sy'n anhysbys.⁸⁹ Yn ystod ein hymweliad â'r Alban, clywsom fod hwn wedi bod yn un o'r cyfrifiadau arbennig o anodd.

84. Fe wnaeth gwaith Sefydliad Bevan yn 2016 a oedd yn bwrw golwg ar ddatganoli⁹⁰ nodi costau fel y brif risg. Yn eu tystiolaeth i ni dywedon nhw:

“...if you get a straight Barnettisation, then it won't work. If you get a transfer of the existing envelope, then you get a different picture. But nevertheless, there are risks around that, there are risks around admin costs, which, certainly, the Scottish example tells us can be quite substantial.”⁹¹

85. Dywedodd Cyngor Abertawe hefyd fod pryder y gallai datganoli arwain at leihau'r gronfa ariannol sydd ar gael i roi cefnogaeth os bydd “digwyddiad andwyol” sy'n effeithio ar breswylwyr yng Nghymru ond nid yng ngweddill y DU.⁹²

86. Yn yr Alban, awgrymwyd fod eu setliad ariannol mwy hael ar y cyfan yn golygu bod mwy o arian wrth gefn ar gael i ddatganoli budd-daliadau.⁹³

Cymhlethdod trefn lle mae hawlyddion yn gorfod defnyddio dwy system wahanol

87. Amlygodd hyd yn oed y rhai a oedd yn gefnogol ar y cyfan i ryw lefel o ddatganoli, megis Ymddiriedolaeth Shaw, fod rhaid cydnabod y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â newid y system. Roeddent yn rhoi pwyslais ar yr angen i ddysgu gwersi o gyflwyno Credyd Cynhwysol, ynghyd â phrofiadau yn yr Alban.⁹⁴ Eu profiad hwy o'r cyntaf oedd y gall newidiadau i'r system effeithio ar hawlyddion yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd a ddaw yn sgîl y newid.⁹⁵

⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [74]

⁹⁰ [Sefydliad Bevan. Making welfare work for Wales: Should benefits for people of working age be devolved? Mehefin 2016](#)

⁹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [142]

⁹² [BW.08.Cyngor Abertawe, paragraff 1.2.3](#)

⁹³ [Trafodaethau anffurfiol yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban](#)

⁹⁴ [BW.06.Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 2.1](#)

⁹⁵ [BW.06.Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 4.2](#)

88. Roedd Cyngor Abertawe yn pryderu y gallai newidiadau arwain at “(fwy) o waith gweinyddol i gwsmeriaid ei gwblhau, a allai fod yn groes i'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person yr hoffem ni ei gweld yn cael ei datblygu”.⁹⁶

89. Yng Nghaeredin clywsom mai ar y rhai sy'n gweinyddu'r budd-daliadau y mae baich y cyfrifoldeb i sicrhau bod y ddwy system wahanol yn gweithio'n effeithiol i hawlyddion.⁹⁷

90. Dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru ei bod yn bwysig sicrhau bod y trawsnewidiad rhwng unrhyw wahanol systemau yng Nghymru a Lloegr mor ddi-dor ac mor llyfn â phosibl.⁹⁸

91. Esboniodd WRAC na ellir datganoli seilos syml o bethau ar wahân a bod budd-daliadau yn cael sgîl-ffaith ar bolisiau eraill. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith mai dim ond pan eir mor bell â gweithredu system ar lefel person-i-sefydliad y gwelir yr effeithiau hyn yn aml, gan nodi'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol fel enghraifft.⁹⁹ Roeddent yn credu bod hyn yn dangos anawsterau newid o athroniaeth eang i lo mân gweinyddu beunyddiol. Roeddent yn pryderu bod risgiau newid yn anfforddiadwy yn enwedig i bobl nad oes ganddynt adnoddau na chynilion wrth gefn.¹⁰⁰

Anawsterau sefydlu systemau newydd

92. Cyfeiriodd CIH Cymru at brofiad yr Alban gan amlygu bod angen ystyriaeth ofalus ynghylch capasiti ac adnoddau Llywodraeth Cymru i ddarparu diogelwch tebyg dros y tymor hwy.¹⁰¹ Nid hwy oedd yr unig rai â'r pryderon hyn ynghylch cyflawni system gymhleth.

93. Awgrymodd Sefydliad Bevan fod y risgiau mewn perthynas â chymhlethdod y system wedi'u bychanu mwy na thebyg. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod pob proses ddiwygio fawr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi ei phlagio gan broblemau gweinyddol a thechnegol. Er y gallai eraill ddarparu'r system yn

⁹⁶ [BW.08.Cyngor Abertawe, paragraff 1.2.6](#)

⁹⁷ Trafodaethau anffurfiol yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban

⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [13]

⁹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [23]

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [45]

¹⁰¹ [BW.04.Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraff 3.4](#)

wahanol, ni ddylid cymryd yn ganiataol y byddent yn ei wneud yn well yn eu tyb hwy.¹⁰²

94. Dywedodd Oxfam Cymru fod trosglwyddo swyddogion Llywodraeth yr Alban i weithio ar fudd-daliadau wedi rhoi straen a phwysau ychwanegol ar draws lluo o adrannau'r Llywodraeth. Mae hyn er gwaethaf y gwaith dadansoddi a rhagfynegi a wnaed cyn datganoli. Dywedon nhw y byddai'r pwysau hwn yn parhau wrth i Social Security Scotland ddod yn gwbl weithredol. Maent hwy'n credu y byddai Llywodraeth Cymru yn wynebu problemau tebyg:

“Particularly given the Scottish Government has significantly more civil servants at 15,960 than the Welsh Government who have just 5,290. Welsh Government must therefore consider carefully and comprehensively how it would meet the required staff and skills gap whilst continuing to meet its current responsibilities.”¹⁰³

95. Yn ogystal, fe wnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd systemau TG effeithiol, gan ddweud bod Llywodraeth yr Alban wedi cael ei gorfodi i ddibynnu ar systemau TG dros dro wrth i atebion tymor hir gael eu hystyried.¹⁰⁴

96. Roedd Chwarae Teg ac Ymddiriedolaeth Shaw yn rhannu'r pryderon hyn am TGCh. Amlygodd Chwarae Teg fod y ffaith bod system TGCh yr Alban wedi'i haddasu i weithredu ar system TGCh yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn creu cyfyngiadau i hyblygrwydd a dyluniad.¹⁰⁵

97. Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anawsterau hyn:

“Gallai datganoli gweinyddu budd-daliadau yng Nghymru gyflwyno ffordd newydd o weithredu a bydd y cyfle i wneud hyn yn ystyriaeth allweddol. Fodd bynnag, gallai'r broses weinyddu gyfyngu ar hyblygrwydd a'r cyfle i newid gan fod rhai nodweddion dylunio yn fater o bolisi yn hytrach na gweinyddiaeth. Mae'r system les yn seiliedig ar gyfres gymhleth a rhyngysylltiedig o fframweithiau gweinyddol a chyfreithiol.”¹⁰⁶

¹⁰² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [145]

¹⁰³ [BW.05 Oxfam Cymru](#)

¹⁰⁴ [BW.05 Oxfam Cymru](#)

¹⁰⁵ [BW.14 Chwarae Teg, paragraff 4.4](#)

¹⁰⁶ [Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth, paragraff 11](#)

Materion trawsffiniol

98. Roedd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn derbyn bod llyf hawlyddion dros ffin Cymru / Lloegr yn gymhlethdod ychwanegol nas hwynebir yn yr Alban, lle mae llai o hylifedd dros y ffin.¹⁰⁷ Fodd bynnag, roeddent yn credu, yn dilyn datganoli treth, y gellid asesu cymhwysedd ar sail pa un a oedd rhywun yn drethdalwr o Gymru ai peidio.¹⁰⁸

99. Teimlai Sefydliad Bevan fod y risg y byddai pobl yn symud i fanteisio ar system fudd-daliadau fwy ffafriol, yn un gymharol fach na ddylid ei gorddatgan. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod rhai cynlluniau eisoes yn bodoli sy'n fwy manteisiol yng Nghymru nag yn Lloegr, nad ydynt wedi arwain at niferoedd mawr o bobl yn symud i Gymru.¹⁰⁹

Perthynas â'r Adran Gwaith a Phensiynau

100. Un o'r themâu a drafodwyd ar draws ein cyfarfodydd yn yr Alban, oedd pwysigrwydd a heriau sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Clywsom mai un o'r heriau allweddol yw maint yr adran, gydag un o'u swyddogion cyfatebol yn aml wedi'i wasgaru ar draws llawer o rolau eraill. Dywedwyd wrthym na fydd datganoli yn yr Alban yn gweithio heb fewnbwn effeithiol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.¹¹⁰

101. Dywedodd WRAC mai eu profiad o ryngweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau dros y blynyddoedd oedd eu bod yn chwarae gwefus-wasanaeth i ymgynghori ac i wrando ar farn ac awgrymiadau pobl. Roeddent yn weddol hyderus bod yr un peth yn wir am eu perthynas â'r gweinyddiaethau datganoledig...¹¹¹

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [131]

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [130]

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [201]

¹¹⁰ Trafodaethau anffurfiol yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban

¹¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [34]

102. Ond fe'n rhybuddiwyd, nad yw datganoli yn flaenoriaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Awgrymwyd wrthym hefyd, y gallai Cymru wynebu mwy byth o heriau, oherwydd ein poblogaeth a'n maint llai.¹¹²

¹¹² Trafodaethau anffurfiol yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban

5. Newidiadau o fewn y setliad datganoli cyfredol

Cawsom ein hargyhoeddi gan y dadleuon y gellid gwneud llawer i wella budd-daliadau yng Nghymru o fewn y setliad datganoli presennol. Credwn y byddai'r argymhellion a wnawn yn cael effaith ar faint o arian y mae pobl yng Nghymru yn ei gael yn ogystal â'u profiad o'r system fudd-daliadau.

103. Dywedodd WRAC, a hwythau wedi bod yn siarad am botensial datganoli am flynyddoedd lawer eu bod wedi:

“...come to the conclusion that there are other better things that could be done in Wales than taking on that kind of chalice of controlling and being responsible for and taking the blame for change.”¹¹³

5. 1. Datblygu system fudd-daliadau gydlynol yng Nghymru

104. Fel a amlinellwyd ym Mhennod 2, mae nifer o fudd-daliadau arian parod a budd-daliadau nad ydynt yn rhai arian parod ar gael yng Nghymru, ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn becyn cydlynol o fudd-daliadau Cymreig.

105. Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym am y gwaith y maent yn ei wneud i fapio'r “rhwyd ddiogelwch Gymreig” sydd eisoes yn bodoli. Dywedon nhw eu bod wedi dod ar draws heriau wrth ddarganfod beth yw'r cyllidebau ar gyfer pob cynllun neu daliad.¹¹⁴

106. Amlygodd Cartrefi Cymunedol Cymru bryderon ynghylch effaith system sydd eisoes yn dameidiog, gyda budd-daliadau yn cael eu darparu ar bob lefel o lywodraethu. Dywedon nhw fod y cysylltiadau rhwng budd-daliadau Llywodraeth y DU a budd-daliadau lleol wedi cael eu torri gan arwain at risg sylweddol y bydd pobl yn methu â hawlio budd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael.¹¹⁵ Gall hyn

¹¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [11]

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [212]

¹¹⁵ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 4](#)

wedyn effeithio ar gymhwysedd pobl i gael budd-daliadau eraill, fel prydau ysgol am ddim. Dywedon nhw y gall ddibynnu ar sgil yr ymgynghorydd pa un a yw rhywun yn llwyddo i wneud y gorau o'r hyn y maen nhw'n gymwys i'w gael gan Lywodraeth Cymru ai peidio.¹¹⁶

107. Galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru am integreiddio budd-daliadau cyn belled ag y bo modd er mwyn lleihau'r risg o dan-hawlio.¹¹⁷ Roeddent hefyd yn cefnogi'r syniad o ail-frandio budd-daliadau Cymru i'w gwneud hi'n gliriach mai budd-daliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl yng Nghymru yw'r rhain.¹¹⁸ Yn eu tyb hwy, pa un a fydd unrhyw ddatganoli'n digwydd ai peidio, dylid gwneud gwaith i integreiddio a symleiddio'r system bresennol i wella gwasanaethau a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau.¹¹⁹

108. Hefyd, fe wnaethant alw am integreiddio gwell rhwng Canolfannau Gwaith a gwasanaethau a ddarperir yn lleol, gan gynnwys rhannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol.¹²⁰

109. Roedd WRAC yn gefnogol i sicrhau bod budd-daliadau wedi'u datganoli a heb eu datganoli'n cyd-fynd yn well â'i gilydd mewn egwyddor, ond dywedodd fod angen ystyried canlyniadau anfwriadol fel pobl yn colli cymorth yr oedd ganddynt hawl iddo o'r blaen.¹²¹

110. Clywsom gan ystod o dystion am y mathau o egwyddorion a allai fod yn sail i system Gymreig. Roedd CIH Cymru yn croesawu'r egwyddorion hynny sy'n berthnasol yn yr Alban,¹²² tra bo Cartrefi Cymunedol Cymru wedi nodi'r gwerthoedd a ddylai reoli pob agwedd ar unrhyw system fudd-daliadau Gymreig yn eu tyb hwy.¹²³ Galwodd Chwarae Teg am i gydraddoldeb fod yn greiddiol, ac awgrymodd ddull croestoriadol er mwyn deall profiadau hawlyddion yn well.¹²⁴

¹¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [103-5]

¹¹⁷ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 4](#)

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [138]

¹¹⁹ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 40](#)

¹²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [112]

¹²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [44]

¹²² [BW.06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 3.1](#)

¹²³ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 38](#)

¹²⁴ [BW.14 Chwarae Teg, paragraff 5.1](#)

Mae Adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 yn nodi egwyddorion system yr Alban fel a ganlyn:

- buddsoddiad ym mhobl yr Alban yw nawdd cymdeithasol,
- mae nawdd cymdeithasol ynddo'i hun yn hawl ddynol ac yn hanfodol i wireddu hawliau dynol eraill,
- mae darparu nawdd cymdeithasol yn wasanaeth cyhoeddus,
- dylai parch tuag at urddas unigolion fod wrth wraidd system nawdd cymdeithasol yr Alban,
- dylai system nawdd cymdeithasol yr Alban gyfrannu at leihau tlodi yn yr Alban,
- dylai system nawdd cymdeithasol yr Alban gael ei dylunio gyda phobl yr Alban ar sail tystiolaeth,
- dylid ceisio cyfleoedd i fynd ati'n barhaus i wella system nawdd cymdeithasol yr Alban mewn ffyrdd sydd—
 - yn rhoi anghenion y rhai y mae arnynt angen cymorth yn gyntaf, ac
 - yn hybu cydraddoldeb a arferion nad ydynt yn gwahaniaethu,
- dylai system nawdd cymdeithasol yr Alban fod yn effeithlon a rhoi gwerth am arian.

Ein barn ni

111. Mae creu pecyn cydlynol o fudd-daliadau Cymreig o fewn pwerau cyfredol Llywodraeth Cymru. Ni fyddai ond yn ymwneud â'r budd-daliadau hynny y mae'n eu darparu, yn gweinyddu arian ar eu cyfer neu'n eu rheoli ar hyn o bryd. Pe bai budd-daliadau pellach yn cael eu datganoli, byddem yn disgwyl iddynt gael eu hymgorffori fel rhan o'r system fudd-daliadau Gymreig hon.

112. Credwn y dylai'r "rhwyd ddiogelwch Gymreig" hon gwmpasu'r holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd a ddarperir ar lefel ddatganoledig yng Nghymru.

113. Wrth ymateb i'n hadroddiad, hoffem i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion y cyfryw fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt; gan gynnwys costau blynyddol pob un a nifer y bobl gymwys a'r hawlyddion ar gyfer pob budd-dal. Dylai hyn gynnwys pob un a weinyddir ar lefel awdurdod lleol.

114. Mae'n fater o degwch sylfaenol bod pobl yn cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo, a hynny mewn ffordd mor hawdd â phosibl. Credwn y gallai pecynnu'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru mewn set "gydlynol" o "fudd-daliadau Cymreig" fod â rôl bwysig o ran sicrhau bod y nifer uchaf bosibl yn eu hawlio.

115. Dylai'r pecyn hwn gael ei danategu gan set o egwyddorion, yn debyg i'r rhai a nodir yn *Neddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018*. Yn ystod ein hymweliad â Chaeredin, clywsom sut y mae'r gwerthoedd hyn wedi cael eu hymgorffori'n llawn yn y broses o ddarparu budd-daliadau datganoledig yr Alban. Mae nodi'r egwyddorion mewn deddfwriaeth wedi darparu eglurder. Roedd yn ymddangos yn glir eu bod yn cael eu dilyn o ran dyluniad budd-daliadau newydd yr Alban, ac arferion gweithredol Social Security Scotland.

116. Credwn y byddai nodi'r egwyddorion hyn yn ei gwneud yn glir iawn i'r cyhoedd yng Nghymru beth allant ei ddisgwyl o unrhyw gymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Gellid ychwanegu unrhyw ddatganoli pellach at y "pecyn" hwn a'i seilio ar yr un set o werthoedd.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu "system fudd-daliadau Gymreig" gydlynol ac integredig ar gyfer yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu set o egwyddorion sy'n sail i'w dyluniad a'r dull o'u cyflwyno. Dylai'r egwyddorion hyn gael eu cydgynhyrchu gyda phobl sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt a'r rhai a ddarperir ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys manylion costau, nifer y bobl sy'n gymwys a'r nifer sy'n eu hawlio.

5. 2. Trefnu bod y Gronfa Cymorth Dewisol ar gael i bobl sy'n profi caledi yn ystod y pum wythnos y maent yn aros am Gredyd Cynhwysol

117. Ar hyn o bryd mae pobl yn aros tua phum wythnos rhwng eu cais am Gredyd Cynhwysol a'r taliad cyntaf. Clywsom dystiolaeth gymhellol bod yr aros hwn yn achosi caledi diangen.

118. Un ateb posib a awgrymwyd gan Sefydliad Bevan oedd sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dewisol ar gael i bobl yn ystod y cyfnod aros hwn. Gall pobl wneud cais am fenthyciad i dalu rhai costau yn ystod y pum wythnos y maent yn aros, ond yn

wahanol i'r Gronfa Cymorth Dewisol, rhaid ad-dalu'r arian hwn. Gall y taliadau hyn i ad-dalu'r benthyciad barhau i achosi anawsterau ariannol, gan fod yn rhaid iddynt ad-dalu'r benthyciad cyn pen 12 mis.

119. Yn ôl Sefydliad Bevan, er y byddai'n costio arian i Lywodraeth Cymru, byddai cyfle i ysgafnhau'r pwysau, trwy ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol i ariannu dwy i dair wythnos gyntaf hawliad.¹²⁵ Mae'n werth amlygu ein bod wedi clywed tystiolaeth yn ein hymchwiliad i gysgu ar y stryd, bod cyflwyno Credyd Cynhwysol a'r diwygiadau lles ehangach yn un o achosion y cynnydd mewn cysgu ar y stryd.¹²⁶

120. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod gan denantiaid sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ôl-ddyledion rhent o £434 ar gyfartaledd, sy'n uwch na'r ôl-ddyledion rhent ar gyfer y rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai, neu'r rhai nad ydynt yn hawlio unrhyw gymorth. Roeddent yn priodoli hyn i nifer o ffactorau gan gynnwys gorfod aros am bum wythnos.¹²⁷ Fe wnaethant hefyd godi pryderon ynghylch pa mor llyfn oedd y broses o weinyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol, gan ddweud bod angen i'r broses fod mor gyflym â phosibl.¹²⁸

121. Galwodd Ymddiriedolaeth Trussell am gryfhau'r Gronfa Cymorth Dewisol ynghyd â thaliadau atodol eraill ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o syrthio i ansefydlogrwydd bwyd difrifol.¹²⁹ Dywedon nhw fod yr amser aros am Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu'r galw am fanciau bwyd a'i fod yn un o'r sbardunau ar gyfer argyfwng ariannol. Fe wnaethant nodi camau a gymerwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i liniaru effaith y pum wythnos o aros gan gredu ei fod yn gyfle i symud nifer sylweddol o bobl i ffwrdd o argyfwng ariannol.¹³⁰

122. Fe wnaethant hefyd alw am fuddsoddi mwy o arian yn y gronfa, gan dynnu sylw at y ffaith bod taliadau cyfartalog yn yr Alban yn sylweddol uwch na'r rhai yng Nghymru.¹³¹

¹²⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [225]

¹²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bywyd ar y strydoedd: Atal a Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru adran 4.2, Ebrill 2018

¹²⁷ BW10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 3

¹²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [107]

¹²⁹ BW15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 12

¹³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [15]

¹³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [37-38]

123. Cododd Ymddiriedolaeth Trussell bryderon hefyd ynghylch pa mor adnabyddus yw'r Gronfa Cymorth Dewisol. Yn un o'u cynadleddau diweddar, nid oedd yr un o'r banciau bwyd a oedd yn bresennol naill ai wedi clywed amdani neu'n deall ei bod yn ffynhonnell cyllid a allai helpu.¹³² Dywedodd CIH Cymru hefyd fod angen defnyddio'r partneriaid cyflawni drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol yn well.¹³³

124. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“...it's important to make clear that people can already access the discretionary assistance fund in those circumstances”¹³⁴ [when they are waiting for their first payment ...”

125. Dywedodd hefyd fod cyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol wedi gweld cynnydd anhygoel, ac y gallai'r cynnydd mewn galwadau ar y gronfa gael ei briodoli i raddau helaeth i Gredyd Cynhwysol.¹³⁵ Mewn gohebiaeth ychwanegol i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod meini prawf cymhwysedd y Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael eu diwygio i'w gwneud yn bosibl cael mynediad at y Gronfa Cymorth Dewisol oherwydd oedi cyn gwneud taliadau a phan fydd aelwydydd wedi cael eu cosbi.¹³⁶

Ein barn ni

126. Rydym yn cydnabod bod defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol i wneud taliadau yn ystod y pum wythnos o aros yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ac yn defnyddio arian i ddiwallu anghenion cymwys sy'n deillio o bolisi Llywodraeth y DU.

127. Ond credwn ei bod yn hanfodol cymryd pob cam posibl i leihau caledi ariannol. Os oes mecanwaith i wneud hyn, o fewn y setliad datganoli cyfredol, dylid ei ddefnyddio. Nodwn hefyd, trwy gamu i'r adwy ar yr adeg hon, y gallai Llywodraeth Cymru atal problemau rhag gwaethygu, ac o bosibl leihau'r baich ar

¹³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [38]

¹³³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [109]

¹³⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [113]

¹³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [114]

¹³⁶ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 6 Awst 2019

bwrs y wlad yn ddiweddarach. Mae'r dull ataliol hwn yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

128. Nodwn sylwadau'r Dirprwy Weinidog bod modd defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol dan yr amgylchiadau hyn yn barod. Ac eto, nid oedd yn ymddangos bod yr un o'r rhanddeiliaid allweddol yn ymwybodol o hyn. Mae angen gwneud hyn yn gliriach i wasanaethau cynghori a'r cyhoedd. Nodwn (ar adeg ysgrifennu) nad yw gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi'n benodol y sefyllfa hon bod modd defnyddio'r gronfa yn y ffordd yma.¹³⁷

129. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan Cartrefi Cymunedol Cymru bod cydleoli gwasanaethau megis awdurdodau lleol mewn Canolfan Waith wedi gweithio'n wych.¹³⁸ Gall bod â phresenoldeb awdurdod lleol neu asiantaeth gynghori mewn Canolfan Waith helpu i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

130. Rydym hefyd yn pryderu efallai na fydd rhai pobl sy'n profi caledi o ganlyniad i aros am bum wythnos yn cwrdd â rhai o'r meini prawf cymhwysedd eraill ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, ac felly y byddant yn cael eu heithrio o'r taliadau hyn. Rydym am i'r meini prawf fod yn ddigon hyblyg i sicrhau nad yw pobl dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu heithrio o'r cymorth ariannol hwn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gellir defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod y cyfnod pan fo pobl yn aros am daliad Credyd Cynhwysol cychwynnol, a bod y meini prawf cymhwysedd a'r broses ymgeisio yn cael eu newid i adlewyrchu hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ymgeisio yn gyflym er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu derbyn yn amserol i osgoi caledi ariannol a bod digon o arian ar gael i fodloni pob hawliad.

5. 3. Cynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau presennol

131. Mae budd-daliadau yn cael eu tan-hawlio yn sylweddol yng Nghymru. Mae hyn yn cael effaith ar aelwydydd unigol, yn ogystal ag economïau lleol a phwrs cyhoeddus ehangach Cymru. Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i gynyddu'r niferoedd sy'n eu hawlio. Gellid gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru fynd ymhellach, a gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i

¹³⁷ Gwefan Llywodraeth Cymru, *Cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol [fel ar ar 21 Medi 2019]*

¹³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [112]

ddarparu cyngor budd-daliadau sy'n ceisio cynyddu hawliadau i'r eithaf. Cefnogwyd y syniad hwn gan ystod o randdeiliaid.

132. Awgrymodd Canolfan Llywodraethiant Cymru y byddai'n gwneud synnwyr i Lywodraeth Cymru arwain ymgyrch i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau yn y flwyddyn cyn unrhyw gam i ddatganoli budd-daliadau cyfan er mwyn sicrhau bod nifer yr hawlyddion yn y flwyddyn sylfaenol yn rhoi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o hawlyddion posibl.¹³⁹ Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cefnogi hyn, ac awgrymodd y gallai fod yn fwy pellgyrhaeddol a chwmpasu hawliau eraill nad ydynt yn cael eu datganoli. Roedd y Comisiynydd hefyd yn cefnogi'r ddyletswydd yn neddfwriaeth yr Alban ar Weinidogion i hybu'r nifer sy'n manteisio ar hawliau i fudd-daliadau.¹⁴⁰

133. Amlygodd WRAC raddfa'r broblem gan nodi mai dim ond hanner y rhai sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn sy'n ei hawlio a dywedodd fod y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau eraill yn eithriadol o isel hefyd. Mae hyn yn cael effaith ehangach ar yr economi leol, gan bod pobl sy'n cael budd-daliadau yn gwario eu harian ychydig yn wahanol i'r rhai sy'n well eu byd a'u bod yn tueddu i'w wario yn llawer mwy lleol ac o ganlyniad mae unrhyw newidiadau i fudd-daliadau, neu dan-hawlio yn cael effaith uniongyrchol ar yr economi leol.¹⁴¹ Fe wnaethant awgrymu bod cyfle enfawr i fuddsoddiad cymharol fach ddwyn enillion da iawn a bod achos busnes cryf dros hyn.¹⁴²

Ein barn ni

134. Ar adeg pan fo llawer gormod o bobl yn brwydro o ddydd i ddydd, mae'n hanfodol y gwneir popeth i gynyddu i'r eithaf yr arian sydd gan bobl yn eu pocedi. Dylid gwneud mwy i sicrhau yn gyntaf bod pobl yn gwybod beth y maent yn gymwys i'w hawlio a'u bod yn cael cymorth, os oes angen, i wneud hynny.

135. Mae gwasanaethau cyngori, a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn bwysig o ran cynorthwyo pobl i hawlio pob budd-dal y mae ganddynt hawl iddo. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi pwyslais yn

¹³⁹ [BW07 Canolfan Llywodraethiant Cymru, paragraff 5.3](#)

¹⁴⁰ [BW 16 Comisiynydd Pobl Hŷn, paragraff 13](#)

¹⁴¹ [BW 12 Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru, paragraffau 24-26](#)

¹⁴² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [41]

rheolaidd ar natur ataliol gwaith gwasanaethau cynghori, gan gynnwys cyhoeddi'r Gronfa Cyngor Sengl yn fwyaf diweddar.¹⁴³

136. Fel man cychwyn, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus helaeth i sicrhau bod pobl yn hawlio'r budd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael. Credwn hefyd y dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor ynghylch budd-daliadau. Nodwn fod y Bil Llywodraeth Leol yn debygol o gael ei gyflwyno ar gyfer craffu deddfwriaethol yn fuan. Gallai hwn fod yn gyfrwng deddfwriaethol posibl i gyflwyno dyletswydd o'r fath. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd o'r fath ar awdurdodau lleol, gellid archwilio costiau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod digon o gyllid ar gael i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni dyletswydd o'r fath.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wella'r nifer sy'n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, yn rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus eang helaeth o leiaf. Credwn hefyd y dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor ynghylch budd-daliadau sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon.

5. 4. Cryfhau llais Cymru ym mhrosesau penderfynu'r DU

137. Nid yw'r setliad datganoli yn darparu llawer o gyfle i'r sefydliadau datganoledig, naill ai'r weithrediaeth neu'r ddeddfwrfa, roi mewnbwn ffurfiol i ddatblygu polisi mewn meysydd a gadwyd yn ôl, hyd yn oed pan fydd y penderfyniadau hyn yn cael effaith sylweddol ar gyfrifoldebau datganoledig. Fe wnaethom archwilio gyda'n holl dystion sut y gallem wella llais Cymru yng nghydestun ehangach y DU.

138. Galwodd CIH Cymru am ystyried sut y gallai Cymru fod â mwy o lais yn y modd y mae budd-daliadau'n cael eu darparu ar sail annatganoledig. Roeddent yn teimlo bod potensial ar gyfer system benderfynu ffederal er mwyn galluogi'r canlynol:

¹⁴³ Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Gwasanaethau Cynghori, 2 Gorffennaf 2019.

“...nations could vote, and equally veto decisions to provide greater equality and balance around how Wales is impacted by decisions taken at a Westminster level.”¹⁴⁴

139. Teimlai Sefydliad Bevan y gallai'r mathau hyn o drafodaethau ddigwydd, ond y byddai angen eglurder a gweledigaeth ar Lywodraeth Cymru i'w cyfleu i Lywodraeth y DU.¹⁴⁵ Meddai CIH Cymru: “you could have a system where [ar faterion heb eu datganoli], you've all got co-equal say, or it could be a different voting rights system”.¹⁴⁶

140. Fe wnaethom fwrw golwg ar fodelau rhyngwladol hefyd. Nid yw'r DU yn anarferol o ran rhannu'r cyfrifoldeb am weinyddu budd-daliadau nawdd cymdeithasol rhwng gwahanol haenau o lywodraeth (Llywodraeth y DU, llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol). Ond hyd yn oed mewn gwledydd hynod ddatganoledig, cyfrifoldeb y llywodraeth ganolog yw nawdd cymdeithasol yn nodweddiadol. Mae swyddogaethau lles dosbarthol yn tueddu i gael eu dyrannu i lywodraethau ar lefel ranbarthol neu daleithiol, a rhai ailddosbarthol i'r llywodraeth ffederal neu ganolog. Mae cau llywodraethau ar lefel ranbarthol allan o gyfrifoldebau lles yn gyfan gwbl yn anarferol, a dim ond yn y systemau mwy canoledig megis rhai Awstralia a'r Almaen y mae'n dueddol o ddigwydd.¹⁴⁷

Ein barn ni

141. Rydym yn nodi o enghreifftiau rhyngwladol bod patrwm eglur gyda budd-daliadau ailddosbarthol yn dal i fod yn gyfrifoldeb i'r llywodraeth ffederal, tra bo'r budd-daliadau dosbarthol yn fwy tebygol o fod wedi'u datganoli i lefel daleithiol neu ranbarthol. Ymddengys fod y model hwn yn taro cydbwysedd rhwng darparu budd-daliadau'n genedlaethol os mai dyna sydd orau lle mae'r budd-daliadau hynny yn y cwestiwn, a chaniatáu hyblygrwydd i ddarparu rhai budd-daliadau ar lefel fwy lleol neu ranbarthol. Mae'r enghreifftiau hyn wedi helpu i oleuo'n meddyliau o ran y budd-daliadau hynny y dylid eu datganoli yn ein tyb ni.

142. Credwn fod cyfle i gryfhau llais Cymru wrth lunio a gweithredu polisi budd-daliadau heb eu datganoli. Yn enwedig yn y meysydd hynny sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig fel tai. Wrth geisio lleihau lefelau tlodi sydd wedi hen galedu yng Nghymru, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y rhaniad

¹⁴⁴ [BW.04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraff 4.8](#)

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [210]

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [125]

¹⁴⁷ [Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Devo more and Welfare, adran 2.5, Mawrth 2014](#)

datganoli i sicrhau bod pob ysgogiad yn cael ei ddefnyddio'n llawn gan Lywodraeth y DU a Chymru.

143. Rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod o newid cyfansoddiadol parhaus. Mae cyhoeddiadau wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn ag adolygiadau amrywiol o'r modd y mae cyfansoddiad y DU yn gweithio. Fel rhan o hyn, rydym ni'n meddwl bod angen i'r ddwy lywodraeth ystyried yn benodol sut y caiff anghenion Cymru eu hystyried pan fo Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyluniad a darparu budd-daliadau lles. Dylid gwneud hyn gyda'r nod datganedig o geisio sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn prosesau i benderfynu ar faterion sy'n cael effaith mor uniongyrchol a sylweddol ar fywydau pobl yng Nghymru.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar y cyd â Llywodraeth y DU i archwilio'r mecanweithiau gorau i wella llais Cymru ym mhenderfyniadau Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisi nawdd cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y trafodaethau hyn ar ein cyfer ymhen chwe mis.

5. 5. Newid diwylliant i'r rhai sy'n darparu budd-daliadau yng Nghymru

144. Yn ogystal â'r swm o arian y mae pobl yn ei gael, gwyddom fod y ffordd mae'r system fudd-daliadau yn trin pobl yn cael effaith sylweddol ar eu hansawdd bywyd. Ar hyn o bryd nid yw bob amser yn trin pobl yn y ffordd fwyaf trugarog ac urddasol.

145. Dywedodd Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol nad oedd dull yr Adran Gwaith a Phensiynau yn un seicolegol lewyrchus, cefnogol, parchus ac nad yw'n trin pobl ag urddas.¹⁴⁸

146. Nododd Oxfam Cymru eu gwaith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio eu Dull Bywoliaethau Cynaliadwy.¹⁴⁹ Mae'r dull cyfranogol hwn sy'n seiliedig ar asedau yn cydnabod bod gan bawb alluoedd ac asedau y gellir eu defnyddio i wella eu bywydau. Ar hyn o bryd mae Oxfam Cymru yn hyfforddi staff Canolfannau Gwaith, a dywedodd wrthym fod y gwerthusiad annibynnol o'r cam cyntaf wedi dangos enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o £4.43am bob £1 a gaiff

¹⁴⁸ BW03 Seicolegwyr ar gyfer Newid Cymdeithasol

¹⁴⁹ I gael rhagor o wybodaeth am y Dull Bywoliaethau Cynaliadwy ewch at [Y Dull Bywoliaethau Cynaliadwy: Pecyn Cymorth](#)

ei gwario yn ôl yr amcangyfrifon. Fe wnaethant alw am ddefnyddio'r dull hwn yn ehangach.¹⁵⁰

147. Dywedodd Oxfam Cymru fod y prosiect yn ymwneud â cheisio sefydlu dealltwriaeth am dlodi yn yr Adran Gwaith a Phensiynau:

“...empowering and equipping staff to do the right thing for those people using the DWP, rather than offering, perhaps, a one-size-fits-all service. Given the introduction of universal credit, the people who are visiting jobcentres are actually a much more diverse group, and often, employment isn't a realistic outcome in the first instance always.”¹⁵¹

148. Dywedon nhw wrthym fod 90 y cant o'r staff hynny sydd wedi hyfforddi wedi nodi ymwybyddiaeth gynyddol am faterion tlodi a'n hoffer Dull Bywoliaethau Cynaliadwy.¹⁵²

149. Galwodd Chwarae Teg am gyflwyno'r hyfforddiant penodol hwn a'i wneud yn un o'r gofynion ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â darparu nawdd cymdeithasol yng Nghymru.¹⁵³ Maent hefyd yn ei alw'n hanfodol ar gyfer newid diwylliannol o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â budd-daliadau yng Nghymru.¹⁵⁴

150. Dywedodd Ymddiriedolaeth Shaw y dylai'r system gael ei hategu gan gymorth iechyd a lles cyfannol ar gyfer hawlyddion a hwnnw'n cwmpasu nifer o feysydd yn eu bywydau, gan gynnwys cymorth gyda chyflogadwyedd.¹⁵⁵ Dywedodd academyddion o Brifysgol Bangor y dylid gwneud gwybodaeth a roddir i hawlyddion yn fwy eglur ac y dylid ei chyfleu mewn ffordd fwy ystyrlon a thrugarog.¹⁵⁶

151. Nododd Sefydliad Bevan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru wedi dod yn sefydliad llawer mwy cyfeillgar i ddefnyddwyr ymwneud ag ef gan

¹⁵⁰ [BW 05 Oxfam Cymru](#)

¹⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [147]

¹⁵² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [149]

¹⁵³ [BW 14 Chwarae Teg, paragraff 3.3](#)

¹⁵⁴ [BW 14 Chwarae Teg, paragraff 5.7](#)

¹⁵⁵ [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 2.2](#)

¹⁵⁶ [BW 14 Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym \(Prifysgol Bangor\), paragraff 3.e](#)

ddweud bod hyn er clod i'r Adran Gwaith a Phensiynau, ond nid da lle gellir gwell.¹⁵⁷

152. Tynnodd rhai tystion sylw at y cysylltiad rhwng newid diwylliannol a gofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Dywedodd Ymddiriedolaeth Shaw y byddai system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cydfynd â gwasanaethau datganoledig yn gyson â'r Ddeddf.¹⁵⁸ Tra galwodd academyddion o Brifysgol Bangor am ddefnyddio'r Ddeddf fel sbardun ar gyfer newidiadau sylfaenol i'r system.¹⁵⁹

153. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn croesawu gwaith Oxfam Cymru a'i fod yn rhywbeth y byddai'r Llywodraeth yn hapus i ymchwilio ymhellach iddo gan ychwanegu mai rhan o'r gwaith oedd deall y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru, a sut y gallwn ni wedyn gefnogi hwnnw'n well i'w gyflwyno ar raddfa fwy.¹⁶⁰ Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd y gallai'r Ddeddf fod yn rhan o ddull Cymreig.¹⁶¹

Ein barn ni

154. Byddem yn cefnogi'n gryf unrhyw ymdrechion i geisio gwneud y system yn fwy trugarog a thosturiol. Rydym yn cymeradwyo'r dull a gyflwynwyd gan Oxfam, gan ddefnyddio'r Pecyn Bywoliaethau Cynaliadwy. Credwn y dylai'r dull hwn gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru wrth ddarparu'r budd-daliadau hynny a weinyddir yng Nghymru ar hyn o bryd, fel y Gronfa Cymorth Dewisol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull Pecyn Cymorth Bywoliaethau Cynaliadwy wrth ddarparu'r holl fudd-daliadau datganoledig a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd.

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [218]

¹⁵⁸ [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 3.4](#)

¹⁵⁹ [BW 14 Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym \(Prifysgol Bangor\), paragraff 5.a](#)

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [116]

¹⁶¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [55]

5. 6. Cynyddu'r trothwy incwm ar gyfer prydau ysgol am ddim a'i gwneud yn system optio i mewn

155. Ar 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru drothwy newydd ar gyfer prydau ysgol, sef incwm net blynyddol o £7,400 i bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.

156. Galwodd Ymddiriedolaeth Trussell am gynyddu'r trothwy i £14,000,¹⁶² gan gysoni Cymru â Gogledd Iwerddon.

Ein barn ni

157. Ar fater o egwyddor, credwn y dylid cynyddu'r trothwy incwm hwn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai hyn greu effaith ariannol sylweddol. Fodd bynnag, nid dim ond mwy o brydau ysgol am ddim fyddai'r effaith fanteisiol ond hefyd mwy o gymhwysedd ar gyfer budd-daliadau eraill y mae prydau ysgol am ddim yn gweithredu fel "pasbort" ar eu cyfer.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb o gynyddu'r trothwy ar gyfer prydau ysgol am ddim i £14,000. Dylid ei chynnal mewn modd amserol fel bod y trothwy diwygiedig ar waith ar gyfer dechrau tymor ysgol 2020/21 os yw'r cynnydd yn ddichonadwy yn ariannol.

5. 7. Cydnabod gofal gan berthynas

158. Ystyr gofal gan berthynas yw'r gofal a roddir i blentyn gan aelod o'r teulu neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn, heblaw am y rhieni. Yn yr Alban, mae gofal gan berthynas yn cynnwys teulu a ffrindiau sy'n rhoi'r gofal hwn mewn trefniadau ffurfiol ac anffurfiol. Byddai ehangu'r diffiniad yn galluogi mwy o ofalwyr i gael mynediad at ystod o fudd-daliadau.

159. Amlygodd Oxfam Cymru y dystiolaeth gynyddol bod angen mwy o gydnabyddiaeth i ofal di-dâl.¹⁶³ Aeth WRAC ymhellach a galw'n benodol am gydnabyddiaeth i ofal gan berthynas.¹⁶⁴ Dywedon nhw wrthym fod cymorth gofal i blant o fewn y system fudd-daliadau'n gyfyngedig ac y byddai cydnabod gofal gan berthynas yn sydyn yn agor elfennau'r system fudd-daliadau sy'n ymwneud â

¹⁶² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [48]

¹⁶³ [BW.05.Oxfam.Cymru](#)

¹⁶⁴ [BW.12.Cynghorwyr.Hawliau.Lles.Cymru.paragraff.23](#)

rhoi help gyda chostau gofal i ofalwyr cofrestredig. Byddai hyn hefyd yn agor llif arall o arian a chymorth a fyddai'n dod i Gymru.¹⁶⁵

Ein barn ni

160. Byddai cydnabod gofal gan berthynas yn dwyn arwyddocâd ymarferol a symbolaidd. Byddai'n ddatganiad cyhoeddus o gefnogaeth i'r rhai sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus pwysig i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ond yn bwysicach byth byddai'n galluogi pobl sy'n rhoi'r gofal hwn i gael gafael ar gymorth pwysig trwy'r system fudd-daliadau. Yn ogystal â chynyddu cymorth ariannol i aelwydydd unigol, bydd hefyd yn dod ag arian ychwanegol i Gymru yn fwy eang.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod y diffiniad o ofal gan berthynas yn cael ei ehangu i gynnwys aelodau'r teulu ac eraill sydd â chysylltiad agos â'r teulu ond sy'n bobl wahanol i'r rhieni ac sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc mewn rhinwedd anffurfiol, llawn-amser. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [42]

6. Pwerau gweinyddol

Gwnaethom ystyried potensial datganoli “pwerau gweinyddol” dros rai budd-daliadau. Credwn fod hyn yn rhoi cyfle lle gellid gweithredu newidiadau sylweddol heb i Lywodraeth Cymru orfod ysgwyddo risg ariannol sylweddol.

161. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru wrthym mai un o'r materion yr oeddent yn ymgodymu ag ef ar hyn o bryd yw “beth yw gweinyddu?”. Dywedon nhw wrthym y byddai hyn yn nodwedd allweddol ar adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Fe wnaethant amlygu hefyd y gallai fod gwahaniaethau barn ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng polisi a gweinyddu.¹⁶⁶

6. 1. Hyblygrwydd Credyd Cynhwysol

162. Mae Trefniadau Talu Amgen sy'n caniatáu i hawlyddion Credyd Cynhwysol gael taliadau mwy mynych neu daliadau uniongyrchol i landlordiaid ar gael yng Nghymru. Ond dim ond os yw'r person yn cael ei atgyfeirio y mae'r hyblygrwydd hwn ar gael, a'i fod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Ni all pobl ddewis Trefniadau Talu Amgen eu hunain.

163. Fel a nodwyd ym mharagraff 17, mae Scottish Choices ar gyfer Credyd Cynhwysol yn rhoi dewis i bobl gael taliadau mwy hyblyg. Gall pobl ofyn yn syml am yr hyblygrwydd talu hwn, ac nid oes rhaid iddynt fodloni unrhyw feini prawf na chael eu hatgyfeirio.

164. Cawsom dystiolaeth gymhellol yn galw am i'r un opsiynau fod ar gael yn gyffredinol i hawlyddion yng Nghymru. Dechreuon ni glywed pryderon am hyn yn gyntaf fel rhan o'n gwaith ar wneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel. Mae rhai o'r problemau, gan gynnwys y pum wythnos o aros am y taliad cyntaf, cael gwared ar y taliadau uniongyrchol awtomatig i landlordiaid ar gyfer costau tai, a'r newid i daliadau misol, yn dra hysbys. Amlygwyd y materion hyn gan nifer o dystion, y gwnaeth pob un ohonynt alw drefnu bod hyblygrwydd talu ar gael i bawb yng Nghymru:

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [71-2]

- Ymddiriedolaeth Shaw¹⁶⁷;
- Oxfam Cymru¹⁶⁸
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru¹⁶⁹
- Cyngor Abertawe,¹⁷⁰
- Cartrefi Cymunedol Cymru¹⁷¹
- Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru;¹⁷²
- Mind Cymru¹⁷³
- academyddion o Brifysgol Bangor¹⁷⁴;
- Chwarae Teg¹⁷⁵
- Cymdeithas Landlordiaid Preswyl¹⁷⁶ ac
- Ymddiriedolaeth Trussell¹⁷⁷

165. Amlygodd Sefydliad Bevan nad mater strwythurol yw hwn, gan ofyn “why would you not want to give claimants more choice and flexibility?”.¹⁷⁸ Mae'n fater o gydraddoldeb ac egwyddor gyda'r Alban. Fe wnaethant alw am gyflwyno hyblygrwydd cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn, gan ddweud bod ffenestr fach ar hyn o bryd.¹⁷⁹

¹⁶⁷ [BW06 Ymddiriedolaeth Shaw, paragraff 4.7](#)

¹⁶⁸ [BW 05 Oxfam Cymru](#)

¹⁶⁹ [BW 04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraffau 2.3-2.4 a 5.3](#)

¹⁷⁰ [BW 08 Cyngor Abertawe, paragraff 3.1.1](#)

¹⁷¹ [BW 10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraffau 16-17](#)

¹⁷² [BW 12 Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru, paragraffau 16-19](#)

¹⁷³ [BW 13 Mind Cymru, paragraff 12](#)

¹⁷⁴ [BW 14 Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym \(Prifysgol Bangor\), paragraff 2.a](#)

¹⁷⁵ [BW 19 Chwarae Teg, paragraff 3.2.2](#)

¹⁷⁶ [BW18 Cymdeithas Landlordiaid Preswyl](#)

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [68]

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [195 a 197]

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [230]

166. Dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell wrthym y gallai Llywodraeth Cymru fod yn rhoi pwysau ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i ehangu'r nifer sy'n hawlio hyblygrwydd".¹⁸⁰

167. Fe wnaeth llawer o dystion ddwyn cymhariaeth â'r Alban. Ond amlygodd rhai faterion sy'n codi o Scottish Choices, ac yn enwedig y taliadau uniongyrchol i landlordiaid. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod y system ledled Prydain Fawr ar gyfer taliadau uniongyrchol yn:

“...unfit for purpose, leading to payment delays to landlords which, in some cases, can lead to technical rent arrears. Direct payment to landlord can also create confusion where a claimant is sanctioned, leading to less than the full rent being paid to the landlord.”¹⁸¹

168. Fe wnaethant ychwanegu, er bod cymdeithasau tai Cymru yn deall y materion hyn ac yn hyblyg wrth ymdrin â thenantiaid sy'n cael eu gorfodi i fod ag ôl-ddyledion oherwydd y system, gall landlordiaid eraill ei chael yn anodd amsugno'r ôl-ddyledion rhent technegol.¹⁸² Fe wnaethant ddisgrifio'r system ar gyfer taliadau fel un sydd wedi torri'n llwyr a dywedon nhw, hyd yn oed os yw rhywun yn gwneud popeth yn iawn y gall Gronni hyd at chwe wythnos o ôl-ddyledion rhent dim ond oherwydd bod y taliad mor hwyr yn cael ei drosglwyddo o'r Adran Gwaith a Phensiynau i'r gymdeithas dai".¹⁸³ Dywedon nhw fod hyn yn ein hatgoffa, hyd yn oed os yw datganoli yn digwydd, os yw'r mecanweithiau sylfaenol yn dal i gael eu rheoli yn Llundain, gallwch chi bron wneud y sefyllfa'n waeth i chi eich hun, i ryw raddau".¹⁸⁴

169. Dywedon nhw fod effaith Scottish Choices, "yn dal i gael ei hasesu".¹⁸⁵ Galwodd Ymddiriedolaeth Trussell hefyd am fwy o ymchwil i effaith Scottish Choices.¹⁸⁶

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [37]

¹⁸¹ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 12](#)

¹⁸² [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 12](#)

¹⁸³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [116]

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [120]

¹⁸⁵ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraffau 12 ac 14](#)

¹⁸⁶ [BW.15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 10](#)

170. Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym fod yr adolygiad o Scottish Choices hyd yn hyn yn awgrymu ei fod wedi bod yn gadarnhaol, ond nid heb straen a hefyd:

- “Take up is relatively high
- More frequent payments can see claimants having to survive lengthy periods on reduced awards, early on in their claim
- Payment system is not currently working well enough for landlords or tenants
- Their impact could be improved with better integration with proposed ‘run on’ of benefits.”¹⁸⁷

171. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi trafod hyblygrwydd talu gyda chydweithwyr yn yr Alban, yn enwedig am y fecaneg.¹⁸⁸ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd fod y trafodaethau wedi digwydd yn fynych ac yn barhaus gyda Llywodraeth y DU, a bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar y pryd (ar adeg rhoi tystiolaeth lafar) yn agored i'r syniad:

“...one of the things we've recently raised is the point that we're at now, when the managed migration has been paused, and that would be an opportune moment to consider any changes or flexibilities to the system.”¹⁸⁹

172. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, er bod trafodaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol, fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i rhwymo gan bolisi Llywodraeth y DU:

“...the fact that much of the administration of universal credit is set out in regulations, and those regulations cover both England and Wales, and it's not possible, we're told, for them to operate the system differently in Wales to England without legislative changes, which they are not, at the moment, prepared to consider.”¹⁹⁰

¹⁸⁷ [BW17.Sefydliad Bevan](#), Atodiad 1

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [14]

¹⁸⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [103-104]

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [106]

173. Fe wnaethant hefyd ddisgrifio anawsterau, brwydrau a thrafodaethau cyson i gael data ar y nifer sy'n hawlio'r hyblygrwydd sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru. Nid oes ganddynt fanylion am faint o bobl sydd wedi gofyn am hyblygrwydd, a faint sydd wedi bod yn llwyddiannus, gan ddisgrifio hynny fel tipyn o fan gwag.¹⁹¹

Ein barn ni

174. Deilliodd yr ymchwiliad hwn i ddechrau o'n pryderon a fynegwyd yn ein hadroddiadau blaenorol am effaith Credyd Cynhwysol ar bobl yng Nghymru. Teimlwn yn gryf y dylai Cymru fod â'r un hyblygrwydd talu ar gyfer Credyd Cynhwysol ag sydd ar gael yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn gwestiwn o gydraddoldeb a thegwch â'r cenhedloedd datganoledig eraill.

175. Er y gallai fod gennym farn wahanol yn unigol am effeithiolrwydd Credyd Cynhwysol, rydym i gyd yn cytuno y dylai'r diffyg hyblygrwydd talu sydd ar gael yn gyffredinol gael ei gywiro ar frys. Efallai fod y cynllun Trefniadau Talu Amgen ar gael yng Nghymru, ond nid yw hwn ar gael i bawb. Rydym hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth y DU yn barod i rannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru am y defnydd o Drefniadau Talu Amgen.

176. Mae'r diffyg hyblygrwydd ynghyd â gorfod aros am bum wythnos cyn i'r taliad cyntaf gael ei wneud yn cael effaith sylweddol ar bobl yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi straen ar nifer sylweddol o wasanaethau datganoledig, yn benodol, lefelau digartrefedd cynyddol.¹⁹² Gwnaethom nodi'r newidiadau i'r system lles fel un o'r ffactorau strwythurol mewn lefelau uwch o gysgu ar y stryd yn ein hadroddiad diweddar.¹⁹³

177. Credwn y dylai sicrhau'r hyblygrwydd talu hwn fod yn fater o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Nodwn y sylwadau a wnaed gan Sefydliad Bevan bod hwn yn amser priodol i geisio newidiadau, cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn. Cydnabuwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi ysgogiad pellach i geisio'r hyblygrwydd hwn ar frys.

¹⁹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [106]

¹⁹² [BW 14 Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym \(Prifysgol Bangor\), paragraff 3.c](#)

¹⁹³ [Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bywyd ar y strydoedd: Atal a Mynd i'r Afael â Chysgu ar y Stryd yng Nghymru, Ebrill 2018, paragraffau 133-136](#)

178. Nid ydym yn credu y byddai problemau gweithredol sylweddol yn gysylltiedig â chyflwyno trefniadau talu hyblyg yng Nghymru heb sefydlu asiantaeth fudd-daliadau ar wahân i Gymru.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio am drefniadau hyblyg ar gyfer talu Credyd Cynhwysol fel y gall pobl yng Nghymru ddewis: cael taliadau mwy mynych, taliadau uniongyrchol i'r landlord, a rhannu taliadau rhwng cyplau. Credwn y dylid bwrw ymlaen â hyn ar frys, a byddem yn gofyn am ddiweddariad o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad ar y trafodaethau a'r broses o roi hyblygrwydd talu ar waith.

6. 2. Datganoli cymorth ar gyfer costau tai

179. I'r mwyafrif o hawlyddion, bydd Budd-dal Tai yn cael ei newid i'r taliad Credyd Cynhwysol sengl yn y pen draw. Un o effeithiau mwyaf y newid hwn fydd y newidiadau yn y trefniadau talu, yr ydym wedi'u cynnwys yn yr adran flaenorol.

180. Bydd rhai pobl yn parhau i gael Budd-dal Tai fel budd-dal unigol (yn hytrach na Chredyd Cynhwysol), fel y rhai sydd dros Oedran Pensiwn y Wladwriaeth; neu sy'n cael y Taliad Anableded Difrifol, neu'r rhai sydd mewn llety â chymorth neu dros dro. Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai datganoli'r budd-dal hwn yn ei gwneud yn bosibl defnyddio cronfeydd Llywodraeth Cymru yn fwy strategol wrth ddarparu llety i bobl hŷn a llety â chymorth.¹⁹⁴ Budd-dal bach ac arwahanol fyddai i'w ddatganoli heb yr un anawsterau o ran datgylmu oddi wrth fudd-daliadau eraill.

Budd-dal tai a Chredyd Cynhwysol

181. Ochr yn ochr â chyflwyno Credyd Cynhwysol, bu newidiadau eraill i'r Budd-dal Tai sydd wedi lleihau'r swm y gall pobl ei hawlio. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno'r "dreth ystafell wely", a chyfyngiadau ar lefelau'r Lwfans Tai Lleol sy'n daladwy i bobl sengl o dan 35 oed. Gall newidiadau ehangach eraill i'r system, fel y "cap budd-daliadau" hefyd effeithio ar y swm y gall pobl ei hawlio am eu costau tai.

182. "Rhent cymwys" yw swm y rhent gwirioneddol y gellir ei dalu â Budd-dal Tai neu'r elfen tai o Credyd Cynhwysol. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn pennu lefel y costau tai a fydd yn cael ei thalu â budd-daliadau. Mae'n seiliedig ar lefelau rhent lleol ac mae yna ystod o reolau sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r lefelau sydd ar gael. Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheolau hyn ar hyn o bryd.

¹⁹⁴ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 34](#)

183. Dywedodd Sefydliad Bevan wrthym mai eu blaenoriaeth hwy wrth geisio pwerau dros fudd-daliadau fyddai help gyda chostau tai am eu bod yn un o ysgogwyr mawr tlodi a sefyllfa lle mae pobl yn brwydro i gael deupen llinyn ynghyd.¹⁹⁵ Mae cysylltiad amlwg rhwng hynny a pholisi datganoledig hefyd.¹⁹⁶ Byddai'n creu llai o risg, a gallai arwain at enillion ariannol o'i gymharu â datganoli budd-daliadau eraill.¹⁹⁷ Nid oeddent yn credu y byddai'n amhosibl hyd yn oed os nad oedd ar Lywodraeth y DU eisiau i hynny ddigwydd o bosibl.¹⁹⁸

184. Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn cytuno, gan gredu y byddai'n gwella strategaethau lleihau tlodi Llywodraeth Cymru.¹⁹⁹

185. Fodd bynnag, dywedodd Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru y byddai'n anodd iawn cael gwared ar gymorth tai o'r Credyd Cynhwysol. Dywedon nhw, oherwydd y lwfansau gwaith a'r tapwyr, y byddai'n rhaid ailddylunio'r system i ystyried cael gwared ar y costau tai.²⁰⁰

186. Credai CIH Cymru y gallai newidiadau i weinyddu budd-dal tai hwyluso trefn lle caiff asesiad o gostau tai ei wneud ar lefel leol, gan mai dyna lle maent yn amrywio a bod gan bobl, aseswyr, yr wybodaeth. Fe wnaethant ddisgrifio rhai camgymeriadau gwirion a wnaed fel rhan o'r broses asesu, na fyddent yn cael eu gwneud gan yr awdurdod budd-dal tai â'r arbenigedd lleol.²⁰¹

Cyfraddau Lwfans Tai Lleol

187. Credai'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl y gallai datganoli lunio datrysiad Cymreig i rewi Lwfans Tai Lleol. Mae ar y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl eisiau gweld y cymorth tai yn cael ei adfer i o leiaf y 30^{ain} ganradd o renti marchnad pan ddaw'r mesurau cyfredol i rewi budd-daliadau i ben yng Ngwanwyn 2020, gan ddod â thaliadau yn ôl yn unol â rhenti'r farchnad. Dywedon nhw fod y mesurau

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [169]

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [231]

¹⁹⁷ [BW17 Sefydliad Bevan](#)

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [189]

¹⁹⁹ [BW 10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 34](#)

²⁰⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [31]

²⁰¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [140-141]

rhewi wedi taro cymunedau Cymru yn galed, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn sylweddol is na chyfraddau'r farchnad.²⁰²

188. Disgrifiodd Sefydliad Bevan y Lwfans Tai Lleol fel enghraifft o sut y gall system fudd-daliadau'r DU danseilio uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, gan ddweud bod y meini prawf o ran maint tai cymdeithasol (a elwir hefyd yn "dreth ystafell wely") yn cael eu cymhwyso i rannau o Gymru sydd â rhai o'r rhenti isaf yn y DU.²⁰³ Dywedon nhw nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr mewn ardaloedd sydd â rhent isel a galw isel. Roeddent hwy'n credu bod hyn yn rhywbeth y gellid ei wneud heb ddatganoli budd-daliadau / costau tai yn llwyr.²⁰⁴

189. Credai Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai bod â dull o ychwanegu arian ar ben y cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn sicr yn cael effaith enfawr ar dlodi, gan ddileu'r angen i bobl fynd i sefyllfaoedd ofnadwy.²⁰⁵ Dangosodd eu hymchwil ddiweddar fod pobl mewn llety a rennir, mewn rhai ardaloedd, yn gorfod dod o hyd i £12 yr wythnos yn ychwanegol ar ben y Lwfans Tai Lleol, gyda phobl yn aml yn defnyddio Taliad Disgresiwn at Gostau Tai i dalu am y diffyg. Fe wnaethant ddisgrifio hyn fel ffordd aneffeithlon iawn, iawn o liniaru tlodi. Ffordd fwy effeithiol fyddai ychwanegu at y cyfraddau Lwfans Tai Lleol penodol ar gyfer y grŵp penodol hwnnw.²⁰⁶

190. Nid oedd y Dirprwy Weinidog wedi'i synnu bod pobl yn awgrymu datganoli cymorth gyda budd-daliadau costau tai. Dywedodd y byddai cymryd cyfrifoldeb am yr elfen tai o Gredyd Cynhwysol i bob pwrpas yn arwain at greu:

"...a Welsh housing benefit, and that would logically require the inclusion of all aspects of housing benefit not included in universal credit. So, all of these things maybe appear simple, but can have broader complexities."²⁰⁷

²⁰² [BW18.Y.Cymdeithas.Landlordiaid.Preswyl](#)

²⁰³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [151]

²⁰⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [189]

²⁰⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [89]

²⁰⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [93-94]

²⁰⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [92]

Ein barn ni

191. Clywsom dystiolaeth gymhellol y byddai'r cyfle i ddatganoli cymorth gyda chostau tai yn arwain at gyd-fynd yn well â pholisïau datganoledig. Er bod gan Lywodraeth Cymru nifer o ysgogiadau polisi sylweddol ym maes tai, nid yw'n meddu ar rai o'r ysgogiadau ariannol allweddol.

192. Rydym yn ymwybodol iawn y gallai datganoli olygu cost sylweddol i Drysorlys Cymru, a chredwn fod angen gwaith archwilio pellach i ddeall costau, risgiau a manteision llawn datganoli o'r fath yn well. Credwn y dylid bwrw ymlaen â hyn yn gyflym; ac y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith archwilio, gael trafodaethau â Llywodraeth y DU i ddeall unrhyw rwystrau posibl i ddatganoli.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli Budd-dal Tai ar gyfer grwpiau penodol o bobl sy'n cael ei ddarparu (ac a fydd yn dal i gael ei ddarparu) y tu allan i Credyd Cynhwysol.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith archwilio manwl pellach i ddeall yn well beth yw costau, risgiau, agweddau gweithredu ymarferol a manteision datganoli elfen tai y Credyd Cynhwysol. Dylai hyn hefyd gwmpasu pwerau i osod lefelau rhent cymwys. Dylai'r dadansoddiad gael ei gyhoeddi i helpu i fod yn sail i ddatgyl gyhoeddus a gwleidyddol yn y dyfodol ynghylch datganoli.

6. 3. Datganoli'r broses asesu ar gyfer budd-daliadau anabledd a salwch

193. Mae yna nifer o fudd-daliadau i gefnogi pobl ag anableddau neu salwch. Mae'r rhan fwyaf yn cynnwys asesiad cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â chymhwysedd. Bu cyhoeddusrwydd eang i faterion sy'n ymwneud â rhai o'r prosesau asesu hyn; a phryderon am agweddau anhrugarog y system.

194. Awgrymodd Cyngor Abertawe y dylid datganoli'r broses asesu a'i rhoi i'r "gwasanaeth iechyd" a fyddai â mynediad at gofnodion unigolyn er mwyn "cynnal asesiad mwy cywir o ran eu hanghenion".²⁰⁸

195. Roedd Sefydliad Bevan hefyd yn gefnogol i integreiddio asesiadau yn well ag elfennau eraill o iechyd a gofal fel nad ydynt yn cael sawl asesiad ar wahân, neu os

²⁰⁸ BW08 Cyngor Abertawe, paragraff 3.2.2.

yw asesiad yn nodi angen penodol, bod cysylltiadau wedyn â'r system iechyd a gofal cymdeithasol.²⁰⁹

196. Dywedodd Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru yr hoffent weld pen blaen y system fudd-daliadau, y pen sy'n ymdrin â'r cyhoedd, yn cael ei ddatganoli. Fe wnaethant awgrymu y gellid gwneud hyn yn gymharol rwydd. Roeddent o'r farn y byddai'n gyfle hefyd i fod â dull mwy integredig.²¹⁰

197. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru mai problem fwyaf pobl gyda'r system yw'r broses asesu a'r trefniadau gweinyddu.²¹¹ Clywsom nad yw'r broses asesu yn gweithio'n effeithiol, a nododd pobl y lefelau uchel o apeliadau llwyddiannus.²¹²

198. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru yr enghraifft o ymgymryd ag asesiad ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol, gan amlygu y gallai dull mwy cydymdeimladol arwain at fwy o geisiadau llwyddiannus a gofynnodd "who bears the financial consequences of that more generous assessment process?".²¹³ Dywedodd fod hyn yn dangos y cymhlethdodau rhwng gweinyddu a chostau'r system.

Ein barn ni

199. Mae'r broses asesu yn elfen hanfodol o'r system fudd-daliadau, sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau pobl. Rydym yn pryderu nad yw'r prosesau asesu cyfredol wastad yn rhoi'r ystyriaeth orau i'r anghenion neu'r heriau penodol a wynebir gan bobl â rhai cyflyrau. Wrth ystyried yr Alban, gallwn weld sut y maent wedi ymgorffori profiad byw pobl yn nyluniad y system fudd-daliadau, a'r modd y caiff ei gweithredu a'i gwerthuso. Bellach mae cyfle yng Nghymru i edrych tuag at yr arfer gorau hwn a gweld sut y gallai Cymru weithredu system debyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

200. Credwn fod angen ymchwilio ymhellach i ddull yr Alban lle mae'r sector preifat wedi'i dynnu allan o'r broses asesu. Mae un Aelod, Mark Isherwood AC, o'r farn y dylai'r ffocws fod ar y broses asesu, yn hytrach na phwy sy'n gwneud yr

²⁰⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [187]

²¹⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [53]

²¹¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [136]

²¹² [BW 12 Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru, paragraff 10](#)

²¹³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [70]

asesiad. Rydym yn ymwybodol y gallai fod cymhlethdodau o ran y contractau yr ymrwymwyd iddynt gan Lywodraeth y DU i ddarparu'r gwasanaethau hyn, felly rydym yn gwerthfawrogi efallai na fydd datganoli'r broses yn digwydd ar unwaith. Ond hoffem weld ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i gychwyn y trafodaethau angenrheidiol gyda Llywodraeth y DU i geisio datganoli'r agwedd bwysig hon ar y broses fudd-daliadau yn y tymor hir. Rydym yn cydnabod y bydd angen i Lywodraeth Cymru geisio sicrwydd y byddai digon o gyllid ar gael i gyd-fynd ag unrhyw ddatganoli.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli'r broses asesu ar gyfer budd-daliadau salwch ac anabled.

6. 4. Datganoli penderfyniadau am gosbau

201. Ynghyd â phryderon am y broses asesu, bu pryderon hirsefydlog am effaith cosbau ar aelwydydd sy'n aml yn byw ar fin y gyllell yn ariannol. Fel rhan o'n hymchwiliad i Wneud i'r Economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel, cymerasom dystiolaeth o'r Prosiect Welfare Conditionality. Amlygodd eu tystiolaeth bryderon ynghylch effeithiolrwydd cosbau yn ogystal â materion a oedd yn ymwneud â gweithredu'r cosbau, megis cosbau yn cael eu rhoi i aelwyd gyfan yn hytrach na'r unigolyn, ac estyn cosbau i'r rhai sydd mewn gwaith.²¹⁴

202. Dywedodd Oxfam Cymru fod tystiolaeth bod cosbau'n arwain at galedi ac yn offeryn aneffeithiol o ran annog pobl i weithio. Fe wnaethant amlygu'r argymhellion a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree ar gyfer newidiadau i'r drefn gosbi, gan gynnwys dull graddol gyda chamau cyn gosod cosbau ariannol, a gostyngiad yn y cosbau ariannol fel nad yw cosbi yn gadael pobl yn ddiymgeledd. Roeddent am weld adolygiad brys o bolisi ac arfer lle mae cosbau yn y cwestiwn.²¹⁵

203. Amlygodd Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru fod cosbau yn aml yn llawer mwy difrifol na'r rheswm a gyfiawnhaodd y gosb.²¹⁶ Fe wnaeth Ymddiriedolaeth Trussell ar y llaw arall amlygu ymchwil a oedd yn dangos perthynas gref, ddeinamig rhwng cosbau budd-daliadau ac atgyfeiriadau at fanciau bwyd.²¹⁷

204. Dywedodd Chwarae Teg y gallai system Gymreig gyflwyno camau ychwanegol cyn cosbau a fyddai'n arwain at system fwy tosturiol a thrugarog.²¹⁸

²¹⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 21 Medi 2017

²¹⁵ [BW.05 Oxfam Cymru](#)

²¹⁶ [BW.12 Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru, paragraff.12](#)

²¹⁷ [BW15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff.5](#)

²¹⁸ [BW.19 Chwarae Teg, paragraff.3.4](#)

205. Dywedodd Sefydliad Bevan fod cosbau yn fater anodd, oherwydd bod angen rhyw fath o ffon ar system sy'n ddibynnol ar bobl yn cydymffurfio â gofynion penodol, ond bod cael gwared ar yr holl gymorth yn gam llym iawn. Fe wnaethant nodi mai'r problemau gyda'r gyfundrefn oedd bod rhai penderfyniadau wedi bod yn annheg ac yn llym, a gyda chyfle cyfyngedig iawn i apelio.²¹⁹

206. Clywsom mai eu prif flaenoriaeth yn yr Alban yw trin pobl ag urddas a pharch. Dywedodd Llywodraeth yr Alban wrthym fod yr ymchwil wedi dangos nad yw cosbi yn gweithio.

Ein barn ni

207. Gall cosbi gael effaith sylweddol ar aelwydydd, gan eu gyrru i ddyled ac argyfwng yn aml. Er nad ydym yn ffurfio barn ynglŷn â defnyddio sancsiynau fel y cyfryw, credwn y gallai datganoli arwain at wneud penderfyniadau yn agosach at bobl Cymru, a rhoi gwell ystyriaeth i anghenion a dinasyddion Cymru.

208. Yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn nodi bod y gyfundrefn gosbi'n wahanol. Cafodd cyfanswm hyd cosbau ei leihau o 3 blynedd i 18 mis, sy'n dangos bod y gyfundrefn gosbi'n gallu cael ei gweithredu'n wahanol yn y gwledydd datganoledig.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i ddatganoli'r rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu cosbau o fewn y system fudd-daliadau.

²¹⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [240]

7. Creu budd-daliadau a phwerau newydd i ychwanegu at fudd-daliadau

Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru bwerau i greu budd-daliadau newydd neu ychwanegu at fudd-daliadau heb eu datganoli. Credwn y byddai'r ddau bŵer yma'n darparu mwy o hyblygrwydd i ymateb i anghenion Cymru.

7.1. Creu budd-dal newydd i fynd i'r afael â mater penodol

209. Bellach mae gan Senedd yr Alban y pŵer i greu budd-daliadau newydd, heblaw pensiynau. Ymhlith y budd-daliadau newydd sydd wedi cael, neu sydd wrthi'n cael, eu creu, mae'r Grant Gofalwyr Ifanc, Taliad Plant yr Alban a chymorth tymor byr i bobl yn ystod y cyfnod y maent yn apelio yn erbyn gostyngiad i'w budd-daliadau.

Taliad Plant yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno'r taliad hwn i deuluoedd ag incwm isel sydd â phlant dan 6 o 2021. Erbyn diwedd 2022 bydd y cymhwysedd'n cael ei ehangu i gynnwys teuluoedd ag incwm isel sydd â phlant dan 6. Taliad wythnosol o £10 yr wythnos fydd hwn, ar gyfer pob plentyn mewn teulu sy'n cael rhai budd-daliadau penodol. Ymdrech i gyrraedd **targedau tlodi plant cyfreithiol rwyngol** yr Alban trwy gyflawni gostyngiad o 3 phwynt canran mewn tlodi plant cymharol yw'r taliad hwn.

Mae Llywodraeth yr Alban yn blaenoriaethu'r grŵp oedran hwn am eu bod yn gwybod o dystiolaeth bod bron i 60% o blant yn byw mewn teulu â phlentyn chwech oed ac iau.²²⁰

210. Roedd Sefydliad Bevan o'r farn bod y pwerau i greu budd-daliadau neu ychwanegu at fudd-daliadau yn bwysig iawn. Ond fe wnaethant fynegi'r angen am bwyll gan ddweud ei bod yn anodd os nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb llawn am y maes polisi perthnasol. Mae perygl hefyd o greu system anghydlynol.²²¹

²²⁰ Gwefan Llywodraeth yr Alban, Taliad Plant yr Alban [fel ar 4 Hydref 2019]v

²²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [206]

211. Amlygodd a Chyngor Abertawe bwysigrwydd sicrhau nad yw unrhyw fudd-daliadau newydd a grëir yn cael effaith ar gymhwysedd na gwerth budd-daliadau eraill nad ydynt wedi'u datganoli.²²²

212. Dywedodd Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru mai ychydig o anghenion penodol i Gymru sydd i'w cael a fyddai'n golygu bod angen budd-dal penodol.²²³

Ein barn ni

213. Credwn y byddai bod â hyblygrwydd ychwanegol i greu budd-daliadau newydd yng Nghymru yn offeryn defnyddiol. Byddai'n golygu y gallem fynd i'r afael ag anghenion Cymru gydag atebion ar gyfer Cymru. Yn amlwg, y disgwyl fyddai bod rhaid i unrhyw fudd-daliadau Cymreig newydd gael eu hariannu gan Drysorlys Cymru. Credwn y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol hwn, na fyddai'n dod heb unrhyw gost i Lywodraeth y DU, yn werth chweil.

214. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl, ond nid ydym yn credu bod hyn yn golygu na ddylai Cymru gael y pwerau hyn. Byddai'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw unrhyw fudd-daliadau newydd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol niweidiol.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i greu budd-daliadau newydd.

7. 2. Ychwanegu at fudd-dal presennol

215. Mae gan Senedd yr Alban y pwerau i ychwanegu at fudd-daliadau a gadwyd yn ôl. Rhaid i Lywodraeth yr Alban dalu unrhyw gostau sy'n codi o'r ychwanegiadau hyn. Mae eisoes wedi cyflwyno'r Atodiad Lwfans Gofalwr, sy'n daliad ychwanegol ddwywaith y flwyddyn o £221 i bobl sy'n cael Lwfans Gofalwr.

216. Mae hyblygrwydd tebyg hefyd yng Ngogledd Iwerddon, lle mae "Taliadau Atodol Lles" yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl y mae eu budd-daliadau wedi'u lleihau o ganlyniad i'r diwygiadau lles. Darperir hwn fel taliad atodol yn ychwanegol at eu budd-daliadau presennol.

217. Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn teimlo y gellid cymryd camau tebyg yng Nghymru heb yr angen am unrhyw ddatganoli, ond y byddai angen buddsoddiad sylweddol a allai fod yn anodd heb gymryd camau mewn perthynas

²²² [BW08.Cyngor.Abertawe.paragraff.3.3.3](#)

²²³ [BW.12.Cynghorwyr.Hawliau.Lles.Cymru.paragraff.22](#)

â chreu incwm fel yn yr Alban.²²⁴ Roedd Ymddiriedolaeth Trussell hefyd yn cefnogi dull yr Alban a fyddai, yn ei thyb hi, yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at leihau caledi ariannol grwpiau â'r incwm isaf.²²⁵ Dywedodd fod cyfle i ddylunio a datblygu system o daliadau atodol, yn enwedig ar gyfer y bobl hynny sydd mewn perygl o syrthio i ansicrwydd bwyd difrifol. Roeddent yn teimlo y gellid defnyddio'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn fwy hyblyg i fynd i'r afael â hyn.²²⁶

218. Credai CIH Cymru fod achos cymhellol dros fodel ychwanegu at fudd-daliadau. Dywedon nhw y byddai'r model ychwanegu at fudd-daliadau yn gwneud y gorau o'r taliadau trosglwyddo treth o San Steffan, gan hefyd gynnal y gallu i warchod dinasyddion yng Nghymru rhag effaith unrhyw doriadau yn y dyfodol.²²⁷ Dywedon nhw hefyd mai hon oedd y ffordd fwyaf diogel o fynd ati, am ei bod yn cynnig y fantais fwyaf am y risg leiaf i Drysorlys Cymru.²²⁸

219. Fel rhan o'r pwerau i ychwanegu at fudd-daliadau, gwnaethom ystyried y pŵer penodol i ychwanegu at renti presennol. Roedd Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn amcangyfrif y byddai adfer y gyfradd Lwfans Tai Lleol i'r 30^{ain} ganradd ac ariannu'r dreth ystafell wely yn llawn yn costio oddeutu £22 miliwn i dalu am y dreth ystafell wely, a £7 miliwn i adfer cyfraddau Lwfans Tai Lleol. Dywedon nhw y byddai ychwanegiadau yn galluogi Llywodraeth Cymru i fynd ati'n benodol i dargedu rhai ardaloedd lle mae'n hysbys bod sail dystiolaeth y bydd hynny'n lleihau digartrefedd neu'n lleihau tlodi.²²⁹

220. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn credu y dylid defnyddio'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai i liniaru'n rhannol rai elfennau o ddiwygio lles, gan gynnwys y diffyg cyllid o dan Gredyd Cynhwysol ar gyfer y 53^{fed} wythnos rent yn 2019/20.²³⁰

221. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau ar hyn o bryd i ychwanegu at unrhyw fudd-daliadau a gadwyd yn ôl. Dywedodd mai dull y Llywodraeth oedd cefnogi'r dull cyflog cymdeithasol, a all adael rhagor o arian ym mhocedi dinasyddion Cymru megis trwy bresgripsiynau neu gludiant

²²⁴ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 29](#)

²²⁵ [BW15 Ymddiriedolaeth Trussell, paragraff 9](#)

²²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [39]

²²⁷ [BW.04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraffau 4.1 - 4.2](#)

²²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [88]

²²⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [397-99]

²³⁰ [BW.10 Cartrefi Cymunedol Cymru, paragraff 27](#)

am ddim. Fodd bynnag, roedd yn rhagweld y byddai ychwanegiadau yn rhan o waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.²³¹

222. Roedd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi yn cydnabod y materion a godwyd gan randdeiliaid, ac roedd yn ystyriol o'r cydadwaith rhwng unrhyw fudd-daliadau Cymreig a'r systemau budd-daliadau ehangach. Dywedodd nhw y byddai'n anffodus pe na bai enillion net yn deillio o unrhyw fudd-daliadau Cymreig newydd.²³²

Ein barn ni

223. Yn yr un modd â'r pŵer i greu budd-daliadau newydd, credwn y byddai pwerau i ychwanegu at fudd-daliadau presennol a gadwyd yn ôl yn darparu mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag anghenion Cymru. Yn benodol, credwn y byddai'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gryfhau cyllid i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth fel digartrefedd neu leihau tlodi neu i gefnogi ymyriadau ariannol y profwyd eu bod yn gweithio. Roeddem yn cydymdeimlo â'r dadleuon a glywsom mai dyma fyddai'r dull o ddatganoli a fyddai'n creu'r risg leiaf.

224. Mae'n gwneud synnwyr bod gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ychwanegu at renti cymwys, er mwyn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael cymorth ariannol sy'n adlewyrchu eu hanghenion a marchnad dai Cymru.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i ychwanegu at fudd-daliadau a gadwyd yn ôl. Dylai hyn gynnwys yn benodol y pŵer i ychwanegu at renti cymwys.

7. 3. Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai

225. Gweinyddir Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai gan awdurdodau lleol, ond mae'r rheolau a'r rheoliadau sy'n eu llywodraethu yn cael eu gosod gan Lywodraeth y DU. Mae cryn dipyn o hyblygrwydd o ran sut mae awdurdodau lleol yn eu gweinyddu, gan gynnwys y pŵer i ychwanegu atynt yn ôl cyfradd o ddim mwy na 2.5 gwaith y dyraniad gwreiddiol. Trosglwyddwyd pwerau dros y cap i Lywodraeth yr Alban yn 2014, cyn i ddatganoli llawn ddilyn yn 2017. Fe wnaeth yr

²³¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [94]

²³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [96]

hyblygrwydd hwn alluogi Llywodraeth yr Alban i liniaru meini prawf maint cymdeithasol Budd-dal Tai yn llawn (y “dreth ystafell wely” fel y'i gelwir).

226. Tynnodd CIH Cymru sylw at y pryderon a godwyd gan CIH Scotland ynghylch cynaliadwyedd tymor hwy defnyddio Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i wrthbwysu effaith y dreth ystafell wely.²³³ Yn 2019/20, mae'r gwariant a ragwelir ar hyn yn £52.3 miliwn. Dywedon nhw nad yw defnyddio Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn darparu dull effeithiol o roi sicrwydd i aelwydydd o ran talu eu costau tai yn y dyfodol.²³⁴

227. Dywedodd Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru fod Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn gwneud iawn, i raddau bach iawn, am y toriadau enfawr mewn cymorth tai. Fe wnaethant alw am gyllid ychwanegol ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, gan ddweud nad oes digon o adnoddau ar hyn o bryd, heb sôn am adnoddau ar gyfer cymorth ychwanegol.²³⁵

228. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru y gallai Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Gronfa Cymorth Dewisol gael eu huno a'u defnyddio fel dull cyffredinol o ychwanegu at fudd-daliadau ym maes tai.²³⁶

Ein barn ni

229. Yn unol â'n sylwadau cynharach, credwn fod cysylltiad amlwg rhwng budd-daliadau sy'n helpu gyda chostau tai a pholisïau datganoledig. Gweinyddir Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn lleol, a chredwn y dylai penderfyniadau am y rheolau a'r rheoliadau sy'n eu llywodraethu gael eu gwneud yng Nghymru.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i'r cynllun taliadau disgresiwn at gostau tai gael ei ddatganoli'n llawn.

²³³ [BW 04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraff 3.3](#)

²³⁴ [BW 04 Sefydliad Tai Siartredig Cymru, paragraff 5.2](#)

²³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [47]

²³⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 27 Mehefin 2019, Cofnod y Trafodion [107]

8. Datganoli budd-daliadau penodol

Fe wnaethom fwrw golwg ar ddatganoli budd-daliadau penodol. Cawsom fod llai o awch am rai o'r awgrymiadau hyn.

230. Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar ddatganoli:

- Taliadau tanwydd gaeaf a thywydd oer;
- Lwfans Gweini;
- Taliadau ar gyfer costau mamolaeth; a hefyd
- Taliadau ar gyfer costau angladd.

231. Cawsom dystiolaeth lai manwl ar y budd-daliadau hyn. Yn ystod ein hymweliad â'r Alban, clywsom am eu profiad o ddatganoli'r budd-daliadau mamolaeth ac angladd.

232. Mewn perthynas â'r taliadau tanwydd gaeaf a thywydd oer, amlygodd Canolfan Llywodraethiant Cymru anwadalrwydd taliadau tywydd oer, gyda dim taliadau wedi'u gwneud yn 2015-16 a 2016-17, ond £21.5 miliwn o wariant yn 2017-18.²³⁷

233. Awgrymodd Sefydliad Bevan y gallai'r dyraniad tanwydd gaeaf fod yn fudd-dal sy'n barod i'w ddatganoli, gyda'r potensial i ddefnyddio lwfans tanwydd gaeaf mewn ffordd wahanol sy'n cysylltu ag effeithlonrwydd ynni cartref a hynny wedyn, yn ei dro, yn cysylltu ag ansawdd tai i bobl hŷn.²³⁸

234. Ar hyn o bryd mae Lwfans Gweini yn cael ei hawlio gan oddeutu 100,000 o bobl yng Nghymru, gan gostio tua £400 miliwn y flwyddyn. Mae wedi'i ddatganoli yn yr Alban.

235. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ystyried datganoli Lwfans Gweini i Gymru.²³⁹ Gwrthwynebwyd hyn gan Lywodraeth Cymru oherwydd ofnau

²³⁷ [BW 7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, adran 3.4](#)

²³⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 19 Mehefin, Cofnod y Trafodion [228]

²³⁹ [Llywodraeth y DU, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro 2016-17 a chynnig i gynghorau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, Ymgynghoriad, Rhagfyr 2015, paragraff 1.4](#)

na fyddai'r lefelau cyllid llawn yn cael eu darparu i gyd-fynd â datganoli. Yn 2017, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â datganoli'r budd-dal.²⁴⁰

236. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru yn rhagweld bod y llwyth achosion yng Nghymru'n debygol o gynyddu 7.2% rhwng 2017 a 2030, o'i gymharu â chynnydd o 14.2% yn Lloegr. Bydd hyn yn gwrthdroi tueddiadau hanesyddol lle mae cyfraddau'r hawlyddion wedi bod yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru yn nodi y gallai'r gwrthdroad hwn fod i'w briodoli i'r ffaith bod cyfraddau'r hawlyddion yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru o'i gymharu, ac amcanestyniadau y bydd y boblogaeth dros 65 oed yn tyfu'n gyflymach yn Lloegr nag yng Nghymru.²⁴¹

Ein barn ni

237. Mae'r rhain i gyd yn fudd-daliadau cymharol fach, a fyddai'n hydrin pe baent yn cael eu datganoli. Rydym hefyd yn nodi bod rhai materion penodol yn gysylltiedig â'r budd-daliadau hyn a chyd-destun Cymru. Er enghraifft, y cyswllt rhwng y taliadau tywydd oer a'r stoc dai, a lefelau natur wledig.

238. O ganlyniad, rydym ni'n credu y dylai Llywodraeth Cymru archwilio dichonoldeb datganoli'r pedwar budd-dal yma.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith archwilio i ystyried ymarferoldeb datganoli:

- Taliadau Tanwydd Gaeaf a thywydd oer;
- Lwfans Gweini;
- Taliadau ar gyfer costau mamolaeth; a hefyd
- Taliadau ar gyfer costau angladd.

²⁴⁰ Llywodraeth y DU, araith ar Gefnogi Llywodraeth Leol, Ionawr 2017

²⁴¹ BW 7a Canolfan Llywodraethiant Cymru, paragraff 3.2.1

Atodiad A: Tystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol ac maent wedi'u cyhoeddi ar y wefan.

Cyfeirnod	Sefydliad
BW 01	Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
BW 02	The Wallich
BW 03	Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol De Cymru
BW 04	Y Sefydliad Tai Siartredig
BW 05	Oxfam
BW 06	Ymddiriedolaeth Shaw
BW 07	Canolfan Llywodraethiant Cymru
BW 07a	Canolfan Llywodraethiant Cymru
BW 08	Cyngor Abertawe
BW 09	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
BW 10	Cartrefi Cymunedol Cymru
BW 11	Comisiynydd Plant Cymru
BW 12	Gareth Morgan, Cyngorwyr Hawliau Lles Cymru
BW 13	Mind Cymru
BW 14	Dr David Beck, Dr Sara Closs-Davies, Dr Hefin Gwilym (Prifysgol Bangor)
BW 15	Ymddiriedolaeth Trussell
BW 16	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
BW 17	Sefydliad Bevan
BW 18	Cymdeithas Landlordiaid Preswyl
BW 19	Chwarae Teg

Atodiad B: Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld [trawsgriifiadau](#) o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar

Dyddiad	Enw a sefydliad
19 Mehefin 2019	Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
27 Mehefin 2019	Gareth Morgan, Cynghorwyr Hawliau Lles Cymru Susan Lloyd-Selby, Ymddiriedolaeth Trussell Matthew Kennedy, Sefydliad Tai Siartredig Cymru Sam Lister, Sefydliad Tai Siartredig Cymru Will Atkinson, Cartrefi Cymunedol Cymru Rachel Cable, Oxfam Samia Mohamed
3 Gorffennaf 2019	Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Jo-Anne Daniels, Llywodraeth Cymru Linda Davis, Llywodraeth Cymru

Atodiad C: Ymweliad â'r Alban

Cyfarfu'r Pwyllgor â chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol yn ystod ei ymweliad â Chaeredin ar 13 Mehefin 2019:

- Sefydliad Joseph Rowntree;
- Llywodraeth yr Alban;
- Social Security Scotland;
- Y Pwyllgor Nawdd Cymdeithasol, Senedd yr Alban; a hefyd
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Nawdd Cymdeithasol a Phobl Hŷn.